*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o'r **PWYLLGOR ARCHWILIO** yn cael ei gynnal
**DDYDD LLUN 15 RHAGFYR 2025 am 09.30 o'r gloch**
yn rhithiol **drwy Zoom**

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Fuddiant**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o'r eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2025**

5. **Penodi Dirprwy Gadeirydd**

6. **Adroddiad Archwilio Menter Twyll Genedlaethol Cymru 2024-25, er gwybodaeth**

7. **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 2025/26, er sicrwydd**

8. **Diweddariad ar Reoli'r Trysorlys 2025/26, er sicrwydd**

9. **Gosod Cyllideb 2026/27, ar gyfer argymhelliad**

10. **Cynllun Dirprwyo Ariannol 2025/28, i'w gymeradwyo**

11. **Materion Brys**
    Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

**RHAN II**

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

12. **Ymestyn Contract Archwilio Mewnol**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion **Pwyllgor Archwilio** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 15 Medi yn rhithiol dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 09.30 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Gareth Sandilands (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Ann Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Ian Hodge | Cyngor Sir y Fflint |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Beverley Parry-Jones (gadawodd am 10:34) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Anthony Jones | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Elgan W Roberts | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Matthew Powell | Dirprwy Swyddog Monitro |
| Helen Williams | Adran Monitro, Cyngor Sir y Fflint |
| Angharad Ellis | MIAA |
| Carwyn Rees | Archwilio Cymru |
| Steve Morris | Pennaeth TGCh |
| Heledd Davies | Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol – cofnodydd |

**1.0 YMDDIHEURIADAU**

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |

**YN ABSENNOL**

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

## 2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

## 3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Nodwyd nad oedd Dirprwy Gadeirydd i'r Pwyllgor Archwilio wedi'i benodi eto. Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer y swydd ond ni ddaeth rhai i law. Cytunwyd i ohirio'r penodiad hwn i ddyddiad diweddarach.

## 4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MEHEFIN 2025

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2025 i'w cymeradwyo. Cynigiwyd eu bod yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion. Eiliwyd hyn a'i basio gyda phawb o blaid.

**4.2 PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd, gan nodi'r gwelliannau uchod.**

## 5.0 MATERION YN CODI

5.1 Mewn perthynas â pharagraff 9 y cofnodion blaenorol mewn cysylltiad â'r posibilrwydd o gyfraddau llog yn gostwng, nodwyd eu bod yn parhau i fod yn sefydlog ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o fenthyciadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn fenthyciadau sefydlog ac felly byddai unrhyw newidiadau i'r gyfradd llog yn cael ychydig iawn o effaith.

5.2 Gofynnwyd a oedd y dangosfwrdd Dangosyddion Perfformiad Allweddol a grybwyllir ym mharagraff 10.2 wedi'i gwblhau ac ymatebodd ER ei fod yn dal i fod yn waith sy'n mynd rhagddo ac y byddai'n cael ei lansio unwaith y byddai wedi'i symleiddio. Roedd datrysiad dros dro gan ddefnyddio Excel yn parhau i fod ar waith am y tro.

5.3 Nodwyd bod angen cynrychiolaeth o Wrecsam o hyd ar y Grŵp Gwaith Craffu ar y Gyllideb a gofynnodd y Cadeirydd am ddatrys hyn y tu allan i'r cyfarfod.

## 6.0 YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU YNGLŶN Â'R TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT AR GYFER GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU

6.1 Cyflwynodd y PST Docx y papur ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y trefniadau llywodraethiant ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru, a'i bwrpas oedd tynnu sylw'r Aelodau at gyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub (FRS) yng Nghymru yn y dyfodol.

6.2 Nodwyd bod y papur a roddwyd i'r Aelodau wedi'i ysgrifennu cyn rhyddhau'r ymgynghoriad.

6.3 Cynghorwyd yr Aelodau y byddai dau seminar i Aelodau yn cael eu trefnu i drafod yr ymgynghoriad ac ymateb yr Awdurdod iddo a byddai'r rhain yn seminar wyneb yn wyneb ar 29 Medi a seminar rhithwir ar 2 Hydref. Byddai gwahoddiadau yn dilyn maes o law.

6.4 Gofynnodd un Aelod a oedd yr ymgynghoriad hwn yn ymgais arall gan Lywodraeth Cymru i greu un Awdurdod Tân ac Achub Cymru ledled Cymru, ac atebodd y PST y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i wneud hynny ac nad oedd amser cyn etholiad nesaf y Senedd i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Felly nid oedd yn rhan o'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn bosibilrwydd ar gyfer y dyfodol.

6.5 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw gynigion yn yr ymgynghoriad i newid y ffordd y darperir cyllid i wasanaethau tân ac achub, a nododd y PSTC EM, er y byddai cyllid praesept yn cael ei groesawu, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol eto ac felly ni chafodd ei gynnwys yn yr ymgynghoriad hwn. Roedd cyfarfodydd gyda Swyddogion Adran 151 yr awdurdod lleol wedi'u cynllunio i drafod agwedd ariannu'r ymgynghoriad, er y byddent yn cael eu hannog i ystyried effaith ehangach yr ymgynghoriad hefyd.

**6.6 PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi cynnwys yr ymgynghoriad; a**
- **ii) Cytuno i ymuno â gweithdy i graffu ar y cynigion a chyflwyno ymateb wedi'i ddrafftio ar ran yr Awdurdod, sy'n nodi barn yr Aelodau ynghylch y cynigion.**

## 7.0 ADRODDIAD RHEOLI'R TRYSORLYS Ch1 2025-26

7.1 Cyflwynodd Elgan Roberts, y Pennaeth Cyllid a Chaffael, Adroddiad Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Ch1 2025-26. Nod yr adroddiad hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar weithgarwch rheoli'r trysorlys a chydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 – 30 Mehefin 2025.

7.2 Tynnodd y Trysorydd sylw'r Aelodau at baragraff 5 yr adroddiad a nododd, yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn, fod y terfynau buddsoddi a benthyca wedi'u hanrhydeddu fel y'u gosodwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Diolch i ER am reoli'r sefyllfa mor dda.

**7.3 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi gweithgareddau'r rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 30 Mehefin 2025.**

## 8.0 ARDYSTIAD AR GYDYMFFURFIO Â GOFYNION ASESU PERFFORMIAD MESUR LLYWODRAETH LEOL 2025-26

8.1 Rhoddodd y PSTC Jones grynodeb o'r Ardystiad ar gydymffurfio â gofynion asesu perfformiad Mesur Llywodraeth Leol 2009 2025-26, a'i bwrpas oedd cadarnhau i'r Pwyllgor Archwilio ganlyniad yr archwiliad allanol o fesurau gwella 2025/26 yr Awdurdod, fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

8.2 Nododd y PST gymaint o bleser oedd derbyn yr ardystiad hwn ar ôl symud o'r Cynllun Gwella Blynyddol blaenorol i'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP). Roedd y symudiad hwn wedi dod â'r Gwasanaeth yn unol â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yn y DU, a dyma'r cyfeiriad yr oedd Llywodraeth Cymru eisiau i'r Gwasanaeth symud iddo. Fodd bynnag, roedd yn dal wedi bod yn risg ac felly roedd derbyn y cadarnhad hwn yn cael ei groesawu. Fe wnaeth y PST longyfarch pawb a gymerodd ran.

**8.3 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r llythyr archwilio sy'n cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.**

## 9.0 DEDDF TROSEDDAU ECONOMAIDD A THRYLOYWDER CORFFORAETHOL 2023

9.1 Cyflwynodd Elgan Roberts bapur Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol (ECCTA) 2023 a roddodd sicrwydd i'r Aelodau fod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn cydymffurfio â'r drosedd statudol newydd o fethu ag atal twyll o dan Ddeddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023, ac amlinellodd y mecanweithiau rheoli, hyfforddi a llywodraethu sydd ar waith i liniaru'r risg o dwyll.

9.2 Gofynnwyd a oedd Awdurdodau tebyg wedi profi unrhyw ddiffyg cydymffurfio â'r Ddeddf eto, a chadarnhaodd ER, gan mai dim ond o 1 Medi 2025 y cafodd y drosedd gorfforaethol newydd am fethu ag atal twyll ei gweithredu, ni fu unrhyw brofiadau andwyol eto.

**9.3 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cydymffurfiaeth y Gwasanaeth â dyletswydd atal twyll Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023; a**
**ii) Nodi'r set bresennol o reolaethau a hyfforddiant gwrth-dwyll.**

**10.0 RHEOLIADAU ARIANNOL WEDI'U DIWEDDARU**

10.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur y Rheoliadau Ariannol wedi'u diweddaru a oedd yn hysbysu'r Aelodau o'r adolygiad a'r diweddariad oedd wedi'i drefnu ar gyfer Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod, a gymeradwywyd yn wreiddiol ym mis Mawrth 2022, ac amlinellodd y newidiadau allweddol a gyflwynwyd yn adolygiad 2025.

10.2 Diolchodd y Trysorydd i'r PSTC MacArthur, ER a phawb a oedd yn gysylltiedig am ddiweddaru'r Rheoliadau Ariannol hyn ac o fewn yr amserlenni penodedig.

**10.3 PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r Rheoliadau Ariannol wedi'u diweddaru ac argymell bod yr Awdurdod yn eu cymeradwyo.**

**11.0 ADRODDIAD ARCHWILIO CYMRU: DIFFODD TANAU'R DYFODOL**

11.1 Cyflwynodd Carwyn Rees, Archwilio Cymru, Adroddiad Archwilio Cymru: Diffodd Tanau'r Dyfodol a gyflwynodd ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwnnw ar ddull yr Awdurdod o dargedu gwaith atal tân.

11.2 Nododd fod dau argymhelliad wedi'u gwneud yn yr adroddiad: bod yr Awdurdod yn asesu lle gallai fod ganddo fylchau yn ei ddull gweithredu ac y dylai fynd i'r afael â'r bylchau hyn er mwyn sicrhau bod ei weithredoedd yn targedu pobl sydd â'r risg uchaf; a bod yr Awdurdod yn cryfhau ei ddealltwriaeth o'r gwerth ychwanegol roedd ei weithgaredd atal yn ei roi. Roedd hyn i gefnogi targedu adnoddau yn gliriach i ddangos y gwerth am arian a gyflawnwyd

11.3 Crynhodd y Rheolwr Ardal Paul Kay fanylion yr adroddiad.

11.4 Gofynnodd Aelod a fyddai unrhyw ddefnydd i Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) o ran helpu i brosesu'r symiau mawr o ddata sydd ei angen i fwydo ymdrechion Atal a Diogelu y Gwasanaeth, ac a oedd unrhyw dueddiadau'n dod i'r amlwg o'r adroddiad hwn a allai arwain at fwy o ddefnydd o dechnoleg. Ymatebodd y Rheolwr Ardal Kay mai gwaith cydweithredol gyda phartneriaid ledled Cymru oedd y flaenoriaeth ar hyn o bryd ac nad oedd yn teimlo y byddai AI yn chwarae ei ran ar hyn o bryd; fodd bynnag, roedd yn parhau i fod yn bwysig monitro technolegau sy'n dod i'r amlwg a chefnogi'r gymuned i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r risgiau yn y maes hwn a sut i'w lliniaru.

11.5 Cadarnhawyd y byddai diweddariad yn cael ei roi yn chwarter 1 blwyddyn ariannol 2026/27.

**11.6 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Archwilio Cymru;**
**ii) Cymeradwyo datblygu cynllun gwella wedi'i dargedu sy'n mynd i'r afael â'r ddau argymhelliad; a**
**iii) Gofyn am ddiweddariad cynnydd yn Ch1 2026-27 am y camau gweithredu.**

**MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

Cynigiwyd y dylai'r cyfarfod symud ymlaen i Ran II a chynigiwyd ac eiliwyd hyn gyda phawb o blaid. Daeth y ffrwd byw i ben.

Daeth Rhan I i ben am 10:18

**RHAN II**

## 12.0 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL 2025-26 A CHAMAU DILYNOL I'R ARGYMHELLION

12.1 Cyflwynodd Angharad Ellis yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 2025-26 a Chamau Dilynol yr Argymhellion a roddodd ddiweddariad cyfunol i'r Aelodau ar weithgarwch archwilio mewnol y cyfnod rhwng Mehefin ac Awst 2025, gan gynnwys cynnydd yn erbyn Cynllun Archwilio 2025/26 a chamau dilynol yr argymhellion y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

12.2 Nododd y PSTC MacArthur mai'r rheswm dros drafod yr eitem hon o dan Ran II oedd oherwydd y gwendidau mewn perthynas â rheolaethau Seiber. Cydnabu waith cydweithwyr Archwilio Mewnol a'r Gwasanaeth mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

12.3 Gofynnodd Aelod a oedd y system Sunrise yn addas i'r pwrpas mewn perthynas ag olrhain asedau ac atebodd SRM, ar ôl gweld beth oedd gwasanaethau eraill yn ei wneud, ei bod wedi dod yn amlwg y byddai angen system fwy pwrpasol mewn perthynas ag olrhain asedau a bod hyn yn cael ei ystyried.

12.4 Cadarnhaodd y PSTC MacArthur eu bod yn ymdrin â'r argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad ond o ran safbwynt ymateb, roedd yr holl beiriannau ac asedau llai yn cael eu gwirio'n ddyddiol ac felly roedd yr holl beiriannau wedi'u cyfarparu'n briodol bob dydd. Nid oedd olrhain asedau yn unigryw i'r Gwasanaeth ac roedd hefyd yn her a oedd yn bodoli o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub eraill.

12.5 Gofynnwyd a oedd MIAA yn teimlo bod yr amserlenni a roddwyd i'r Gwasanaeth i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn yn briodol ac a oedd gan y Gwasanaeth yr adnoddau angenrheidiol i allu gwneud hynny. Cadarnhaodd AE fod MIAA yn hyderus am hyn.

12.6 Pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen brys mewn perthynas ag ymateb seiber y Gwasanaeth ac anogodd ei fod yn cael ei wneud yn flaenoriaeth. Cadarnhaodd y PSTC MacArthur fod y gwasanaeth yn parhau i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, a bod gwaith ar y cyd yn digwydd gyda gwasanaethau eraill ledled Cymru.

12.7 Cadarnhaodd SRM nad oedd y Gwasanaeth, hyd yn hyn, wedi bod yn agored i'r un ymosodiad seiber ag a ddigwyddodd yn genedlaethol dros yr wythnosau diwethaf a bod bodolaeth dull 'Gardd Furiog' y Gwasanaeth yn golygu y dylid cadw unrhyw fygythiadau draw.

**12.8 PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26;**
- **ii) Cymeradwyo'r canfyddiadau olrhain a'r amserlenni gweithredu diwygiedig; a**
- **iii) Chefnogi ffurfioli trefniadau llywodraethiant ar gyfer rheoli asedau offer a sicrwydd seiber.**

## 13.0 CONTRACT PERFECT CIRCLE AR GYFER Y GANOLFAN HYFFORDDI

13.1 Cyflwynodd y PSTC Helen MacArthur gontract Perfect Circle a nododd y Cadeirydd fod rhai eitemau o fewn y contract nad oeddent yn berthnasol a gofynnodd am fynd i'r afael â hyn.

13.2 Cadarnhaodd y PSTC MacArthur fod y contract hwn ar yr agenda at ddibenion gwybodaeth yn unol â'r Cynllun Dirprwyo gan fod gwerth y contract yn fwy na £1m.

13.3 Cynghorodd ER fod y contract yn rhan o fframwaith SCAPE, mai'r deg tudalen gyntaf oedd y mwyaf priodol o ran cyfreithlondeb, a bod cyngor cyfreithiol wedi'i geisio a'i gymryd. Cadarnhaodd ymhellach fod y contract wedi'i awdurdodi gan y PST trwy'r system ariannol ddigidol, Tech One. Cadarnhaodd fod gan Gleeds, y prif gontractwr sy'n gweithio trwy'r contract Perfect Circle, lawer o brofiad o adeiladu canolfannau hyfforddi a gweithio yn y sector tân ac achub.

**13.4 PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi cynnwys contract Perfect Circle.**

Daeth Rhan II i ben am 10:42

*This document is available in English* Eitem Agenda 6

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **15 Rhagfyr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur** |
| Pwnc | **Archwilio Cymru – Menter Twyll Genedlaethol** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr eitem hon yw cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru i'r Aelodau ar yr ymarfer gwrth-dwyll a gynhelir bob dwy flynedd ledled y DU a elwir yn Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r adroddiad yn rhoi cefndir y fenter a chrynodeb o'r parau ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod). Yng Nghymru, mae'r fenter hon yn dod o dan bwerau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymryd rhan yn y fenter gwrth-dwyll a gynhelir bob dwy flynedd ledled y DU drwy rannu setiau data electronig y cytunwyd arnynt. Mae'r setiau data yn cael eu dadansoddi yn erbyn cyflwyniadau gan gyrff cyhoeddus eraill a phan nodir pâr, caiff hyn ei drosglwyddo'n ôl i'r corff perthnasol i'w ystyried ymhellach.

3 Mae'r adroddiad sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) a'r parau data ar gyfer yr Awdurdod. Nid yw canfod pâr yn dystiolaeth o dwyll ond mae'n ffordd o dynnu sylw at feysydd sydd angen esboniad pellach.

4 Tîm Cyllid yr Awdurdod sy'n cynnal adolygiadau o'r holl barau, dan oruchwyliaeth a chyda sicrwydd archwilydd mewnol yr Awdurdod. Caiff adroddiad yr archwilydd mewnol ei gynnwys o fewn eitem 7 agenda heddiw ac mae'n cadarnhau bod yr holl barau wedi'u hadolygu. Mae'r gwaith a wnaed yn cadarnhau nad oes angen ymchwiliad ffurfiol oherwydd twyll ar ddim un o'r parau.

## ARGYMHELLION

5 Argymhellir bod Aelodau:

- **i) Yn nodi cefndir y Fenter Twyll Genedlaethol a'r parau ar gyfer yr Awdurdod; ac**
- **ii) Yn nodi'r sicrwydd a ddarparwyd gan archwilydd mewnol yr Awdurdod yn ei adroddiad diweddaru ar gyfer y Pwyllgor hwn.**

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau rhwymedigaethau'r Awdurdod i atal a chanfod twyll. |
| Cyllideb | Mae'r gwaith a wnaed wedi'i gyflawni o fewn y gyllideb a heb fod angen adnoddau pellach. |
| Cyfreithiol | Mae adroddiad Archwilio Cymru yn cadarnhau cyfrifoldebau'r Awdurdod. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae cydymffurfio â'r fenter twyll genedlaethol yn cefnogi'r sicrwydd bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli risgiau twyll. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Nodyn Briffio

# Menter Twyll Genedlaethol 2024-25: diweddariad ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Ynglŷn â'r Fenter Twyll Genedlaethol

1 Ymarfer gwrth-dwyll a gynhelir ledled y DU bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'n helpu i atal a chanfod twyll drwy rannu a pharu setiau data yn electronig. Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn gweithio yn **Atodiad 1**.

2 Yng Nghymru, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn gweithredu o dan bwerau statudol yr Archwilydd Cyffredinol. Mae cyfranogiad yn orfodol ar gyfer awdurdodau lleol unedol, cyrff y GIG, heddluoedd, ac awdurdodau tân ac achub. Ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymarfer diweddaraf ar sail wirfoddol mae Llywodraeth Cymru, rhai o gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Trafnidiaeth Cymru), a Chyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru.

3 Mae'r nodyn briffio hwn yn rhoi diweddariad ar ymarfer diweddaraf Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 ar lefel genedlaethol ac ar 31 Gorffennaf 2025. Mae hefyd yn darparu rhywfaint o ddata ar lefel leol ar gyfer eich sefydliad, er ein bod yn annog y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i geisio rhagor o fanylion lleol gan swyddogion arweiniol.

## Cyflwyno data ar gyfer 2024-25

4 Mae ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yn mynd rhagddo. Cyflwynodd cyfranogwyr ddata ar gyfer y swp-ymarfer paru data eilflwydd ym mis Hydref 2024. Roedd hyn yn cynnwys data ar fudd-daliadau tai, tenantiaid tai a rhestrau aros, cardiau parcio bathodynnau glas, trwyddedau, a gwahanol daliadau fel taliadau credydwyr, cyflogres, a phensiynau.

5 Rhyddhaodd Awdurdod Twyll Sector Cyhoeddus y DU y rhan fwyaf o'r adroddiadau paru data i gyfranogwyr erbyn diwedd Rhagfyr 2024. Caiff data ynghylch y dreth gyngor a'r gofrestr etholiadol ei gyflwyno'n flynyddol. Y dyddiad cau diweddaraf ar gyfer cyflwyno'r data hwn oedd Chwefror 2025.

6 Mae gweithrediadau data atodol yn digwydd yn ystod yr ymarfer i brosesu cyflwyniadau data newydd, anghyflawn neu ddata sydd ar goll. Er enghraifft, mae cynnydd yn cael ei wneud i newid Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 trwy Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol a fydd yn galluogi'r Fenter Twyll Genedlaethol i ddychwelyd i baru data gofal cymdeithasol oedolion yn ystod ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25.

# Diweddariad cenedlaethol

## Paru data ac ymchwilio

7 Hyd yma, mae bron i 440,000 o bariadau data wedi'u nodi ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan yn ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yng Nghymru. Mae **Arddangosyn 1** yn dangos bod y rhan fwyaf o'r pariadau hyn ar gyfer awdurdodau unedol a chyrff iechyd.

**Arddangosyn 1: Pariadau data cyfranogwyr Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yng Nghymru yn ôl math o sefydliad, ar ddiwedd Gorffennaf 2025**

| Math o sefydliad | Nifer y pariadau data | % o bariadau data |
|---|---:|---:|
| Awdurdod unedol | 373,114 | 84.9 |
| Iechyd | 50,409 | 11.5 |
| Heddlu | 2,641 | 0.6 |
| Tân ac achub | 740 | 0.2 |
| Arall | 12,749 | 2.9 |
| **Cyfanswm** | **439,653** | **100.0** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol

Noder: Nid yw cyfanswm y % yn cyfateb i'r % unigol oherwydd talgrynnu.

8 Mae paru data yn nodi hawliadau a thaliadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Ni ellir gwneud unrhyw ragdybiaeth ynghylch a oes twyll, gwall neu esboniad arall nes bod ymchwiliad wedi cael ei gynnal. Er enghraifft, gall fod canlyniadau positif anghywir ynghylch taliadau credydwyr os yw cyrff yn gwneud taliadau fesul cam o'r un swm yn fwriadol.

9 Rydym yn cydnabod nad yw'n ymarferol ymchwilio i'r holl ddata sy'n cael ei baru, yn enwedig ar gyfer cyrff sydd â nifer mawr o bariadau. Caiff cyrff eu hannog i gymryd dull seiliedig ar risg o asesu adroddiadau paru data a phenderfynu pa fath o bariadau data, a sawl un, y byddant yn ymchwilio iddynt.

10 Erbyn diwedd Gorffennaf 2025, nid oedd pump o'r cyrff a gymerodd ran wedi cau unrhyw bariadau data. Mae rhai cyfranogwyr yn gwneud cynnydd da wrth adolygu pariadau data Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, tra bod eraill wedi gwneud cynnydd cyfyngedig.

11 Mae **Arddangosyn 2** yn dangos cyfanswm y pariadau data ar gyfer pob maes paru data. Mae hefyd yn dangos nifer y pariadau data sydd wedi cau mewn maes paru data, ynghyd â nifer y cyfranogwyr sydd â phariadau yn y maes hwnnw. Mae absenoldeb pariadau sydd wedi cau yn awgrymu nad yw'r cyfranogwr wedi mynd ati i adolygu unrhyw bariadau yn y maes hwnnw.

**Arddangosyn 2: Pariadau data cyfranogwyr Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yng Nghymru sydd wedi'u prosesu a'u cau, ar ddiwedd Gorffennaf 2025**

| Maes paru data | Pariadau data | Pariadau data wedi cau | Cyfranogwyr â phariadau data | Cyfranogwyr heb unrhyw statws 'wedi cau' ar gyfer eu pariadau |
|---|---|---|---|---|
| Disgownt person sengl y dreth gyngor | 198,146 | 5,385 | 22 | 11 |
| Credydwyr | 187,228 | 19,791 | 48 | 16 |
| Cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor | 16,578 | 3,547 | 22 | 1 |
| Bathodynnau glas | 10,377 | 5,849 | 22 | 3 |
| Cyflogres | 8,150 | 1,705 | 46 | 6 |
| Rhestrau aros tai | 6,359 | 1,392 | 18 | 5 |
| Tenantiaid tai | 4,636 | 879 | 11 | 2 |
| Pensiynau | 2,962 | 1,098 | 12 | 4 |
| Parcio i breswylwyr | 2,405 | 2,368 | 8 | 1 |
| Caffael | 1,985 | 400 | 42 | 28 |
| Budd-dal tai | 826 | 483 | 22 | 2 |
| Gyrwyr tacsi | 1 | 1 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **439,653** | **42,898** | **49** | **5** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol

Noder: Ar ôl asesu risg adroddiadau paru data ac unrhyw ymchwiliadau dilynol, dylai pob pariad data gael ei 'gau' a dylid rhoi statws paru iddo. Mae sawl math o statws 'wedi cau'. Dylai pariadau nad ydynt wedi bod yn destun ymchwiliad gael statws 'Wedi cau – Ni chafodd ei ddewis ar gyfer ymchwiliad'. Gellir swp-ddewis statws paru pariadau data neu bennu'r statws yn unigol.

## Canlyniadau

12 Cofnododd cyfranogwyr yng Nghymru ganlyniadau o £4.7 miliwn ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Gorffennaf 2025. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos pa broses baru y mae'r canlyniadau yn gysylltiedig â hi.

**Arddangosyn 3: Canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol a gofnodwyd gan gyfranogwyr o Gymru, 1 Ebrill 2024 i 31 Gorffennaf 2025**

| Ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol | Canlyniadau (£oedd) |
|---|---|
| Ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 (ymarfer eilflwydd) | 1,719,037 |
| Arbedion hwyr o ymarfer Menter Twyll Genedlaethol (ymarfer eilflwydd) | 867,157 |
| Ymarferion paru data blynyddol y dreth gyngor | 2,080,831 |
| **Cyfanswm** | **4,667,025** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol

Noder: Mae canlyniadau'n cynnwys (i) y symiau gwirioneddol y mae cyfranogwyr wedi'u cofnodi fel twyll neu wallau; a (ii) elfennau amcangyfrifedig sy'n ceisio nodi gwerth y golled o dwyll neu wallau a ganfuwyd, a gwerth unrhyw golledion yn y dyfodol y gall y corff hwnnw fod wedi mynd iddynt heb ymyriad yn dilyn achos o baru data'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae gan y rhan fwyaf o setiau data fethodoleg i gyfrifo arbedion amcangyfrifedig. Caiff pob methodoleg ei hadolygu gan Fwrdd Llywodraethu Menter Twyll Genedlaethol Swyddfa'r Cabinet a'i chymeradwyo gan Banel Atal Twyll Swyddfa'r Cabinet.

# Diweddariad lleol

13 Caiff unrhyw ddata sy'n cael ei baru ei ryddhau mewn adroddiadau paru data. Mae gan bob adroddiad diben wahanol ac mae'n cymharu data o ddwy set ddata neu fwy. Caiff yr adroddiadau eu rhannu'n fathau o setiau data: er enghraifft, budd-dal tai, cyflogres, neu gredydwyr.

14 Dylai asesiad risg sefydliad o'r adroddiadau paru data bennu'r mathau o bariadau data a nifer y pariadau data y dylid ymchwilio iddynt. I gefnogi'r gwaith o asesu risg, mae

cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol yn nodi bod rhai adroddiadau paru data yn 'adroddiadau allweddol' gyda chyfraddau llwyddiant uchel yn hanesyddol o ran nodi twyll neu wallau. Hefyd, rhoddir sgôr i'r rhan fwyaf o bariadau data unigol o ran y risg o dwyll.

15 Mae **Arddangosyn 4** yn dangos cyfanswm y pariadau data a nodwyd ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ynghyd â'r rhai a gofnodwyd mewn adroddiadau allweddol. Mae **Atodiad 2** yn darparu dadansoddiad pellach o'r pariadau data hyn yn ôl sgôr risg twyll.

**Arddangosyn 4: Pariadau data Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ar ddiwedd Gorffennaf 2025**

| Maes paru data | Pariadau data ym mhob adroddiad | Pariadau data mewn adroddiadau allweddol sydd â chyfraddau llwyddiant uchel yn hanesyddol |
|---|---:|---:|
| Credydwyr | 134 | 128 |
| Cyflogres | 35 | 34 |
| Caffael | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **170** | **163** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol

Noder: Nid yw adroddiadau paru data disgownt person sengl y dreth gyngor yn cael eu dynodi'n 'adroddiadau allweddol' yn ffurfiol ond cânt eu trin fel rhai yn ymarferol.

16 Gall sawl ffactor ddylanwadu ar pa adroddiadau paru data yr edrychir arnynt a phryd y bydd hyn yn digwydd. Er enghraifft, gall sefydliad roi blaenoriaeth i edrych ar adroddiadau cyfateb data sy'n gysylltiedig â meysydd lle mae ganddo bryderon am reolaethau mewnol neu lle mae hanes o dwyll neu wallau. Hefyd, bydd cyflymder y cynnydd yn dibynnu ar adnoddau lleol. Am y rhesymau hyn, nid yw'r diweddariad cyffredinol hwn yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch lle mae gwaith prosesu a chanlyniadau yn cael eu cofnodi gan eich sefydliad ar y cam hwn.

17 Mae cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cynnwys dangosfwrdd ac mae'n darparu adroddiadau gwahanol am ganlyniadau a gweithgarwch prosesu. Rydym yn annog y rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu i geisio diweddariadau mwy manwl am waith prosesu a chanlyniadau a gofnodwyd gan eu Huwch Swyddog Cyfrifol a'u Cyswllt Allweddol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol.

## Gwaith Archwilio Cymru yn y dyfodol

18 Ar gyfer yr ymarfer Menter Twyll Genedlaethol hwn, byddwn yn cynnal asesiad lefel uchel o drefniadau llywodraethu a threfniadau dilynol cyfranogwyr. Byddwn yn ymgysylltu â chyrff dros yr hydref/dechrau'r gaeaf i ystyried materion sydd ar ein rhestr wirio hunanarfarnu ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol.[1] Byddwn hefyd yn dadansoddi'r asesiad risg a'r gwaith prosesu paru data a gynhaliwyd, a'r canlyniadau a gofnodwyd gan gyfranogwyr, fel y'u hadlewyrchir yng nghymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol.

19 Bydd y gwaith hwn yn ein helpu i ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar y canlyniadau a adroddir gan gyrff unigol a'r amrywiadau rhyngddynt. Bydd canfyddiadau'r asesu hwn yn llywio ein hadroddiad cenedlaethol nesaf yn hydref 2026.

[1] Ym mis Rhagfyr 2024, rhannwyd y rhestr wirio wedi'i diweddaru gydag uwch swyddogion cyfrifol a chysylltiadau allweddol y Fenter Twyll Genedlaethol. Anogwyd pob corff i'w chwblhau a'i rhannu â'r rhai â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

# Atodiad 1 – Y Fenter Twyll Genedlaethol

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn defnyddio paru data i ganfod ac atal twyll. Mae'n cymharu setiau data yn electronig yn erbyn cofnodion eraill a ddelir gan yr un corff a chyrff eraill, i weld i ba raddau maent yn cyfateb.

Mae'r gwaith paru data yn dangos anomaleddau neu anghysondebau sy'n nodi achosion posibl o dwyll neu wallau. Caiff arwyddion o dwyll posib eu hadrodd i'r cyfranogwyr, sy'n gyfrifol am weithredu ar y pariadau hyn.

Mae effeithiolrwydd y Fenter Twyll Genedlaethol yn dibynnu ar drylwyredd yr asesiad a'r ymchwiliad i'r pariadau a'r gwaith o gofnodi canlyniadau.

Mae'r cyrff yn cofrestru'r canlyniadau yng nghymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae gan bob corff sy'n cymryd rhan Uwch Swyddog Cyfrifol enwebedig a Chyswllt Allweddol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol, a all fod yr un person mewn rhai achosion.

Mae Awdurdod Twyll Sector Cyhoeddus y DU, sy'n rhan o  Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU a Thrysorlys EM, yn goruchwylio'r Fenter Twyll Genedlaethol ledled y DU. Mae Archwilio Cymru yn arwain yr ymarfer yng Nghymru o dan bwerau'r Archwilydd Cyffredinol yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae Cod Ymarfer Paru Data yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r rheolaethau a'r ddeddfwriaeth allweddol sy'n llywodraethu'r ymarfer yng Nghymru.

Cyhoeddwyd adroddiad ar ganlyniadau ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 ym mis Hydref 2024. Caiff adroddiadau ar y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer rhannau eraill o'r DU eu cynhyrchu gan yr Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, Audit Scotland, a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon.

Nid oes unrhyw gost uniongyrchol i'r cyfranogwyr am gymryd rhan yn yr ymarfer. Mae Archwilio Cymru yn derbyn cyllid, drwy Gronfa Gyfunol Cymru, sy'n talu i gyrff gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae hyn yn cwmpasu'r gwaith prosesu paru data canolog ar gyfer yr ymarfer eilflwydd, yn ogystal â'r ymarfer blynyddol ar gyfer setiau data'r dreth gyngor a'r gofrestr etholiadol. Felly oedd hi o hyd ar gyfer ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25. Felly, y prif gostau i'r cyfranogwyr yw'r adnoddau a ddefnyddir i gyflwyno data a chynnal gwaith dilynol unwaith y bydd pariadau data yn cael eu rhyddhau.

## Atodiad 2 – Dadansoddiad o bariadau data yn ôl sgôr risg twyll ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn pennu sgôr risg twyll (risg uchel iawn, risg uchel, neu risg ganolig) i'r rhan fwyaf o'r pariadau data, ond nid pob un. Mae'r sgôr risg hon yn seiliedig ar gyfuniad o ddau ffactor:

- Rhesymeg risg – set o feini prawf ar gyfer pob cyfuniad set ddata sydd, pan gaiff ei chyflawni, yn nodi bod canlyniad twyllodrus yn fwy tebygol o ddigwydd.
- Sgôr ôl troed – sawl gwaith mae unigolyn mewn pariad yn ymddangos yn y cyfeiriad ar draws holl ddata'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'n arwydd o p'un a yw'r person hwnnw'n byw yn y cyfeiriad hwnnw.

Mae **Arddangosyn 5** ac **Arddangosyn 6** yn darparu dadansoddiad pellach o bariadau data Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ôl sgôr risg ar gyfer pariadau data ym mhob adroddiad paru data a'r rhai mewn adroddiadau allweddol. Mae'r dadansoddiad hwn yn adeiladu ar **Arddangosyn 4** ym mhrif gorff y nodyn briffio hwn. Ni chaiff sgôr risg ei phennu ar gyfer pob pariad data. Yn gyffredinol, dylid ystyried bod pariadau data disgownt person sengl y dreth gyngor a phariadau mewn adroddiadau allweddol na chaiff sgôr risg ei rhoi iddynt yn rhai 'risg uchel iawn' yn ymarferol.

**Arddangosyn 5: Pariadau data Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ôl sgôr risg ar gyfer pariadau data ym mhob adroddiad, ar ddiwedd Gorffennaf 2025**

| Maes paru data | Pob pariad data | Risg uchel iawn | Risg uchel | Risg ganolig | Dim sgôr risg |
|---|---|---|---|---|---|
| Credydwyr | 134 | 29 | 105 | 0 | 0 |
| Cyflogres | 35 | 0 | 9 | 20 | 6 |
| Caffael | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **170** | **29** | **114** | **20** | **7** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe’r Fenter Twyll Genedlaethol

**Arddangosyn 6: Pariadau data Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ôl sgôr risg ar gyfer pariadau data mewn adroddiadau allweddol, ar ddiwedd Gorffennaf 2025**

| Maes paru data | Pob pariad data | Risg uchel iawn | Risg uchel | Risg ganolig | Dim sgôr risg |
|---|---|---|---|---|---|
| Credydwyr | 128 | 28 | 100 | 0 | 0 |
| Cyflogres | 34 | 0 | 8 | 20 | 6 |
| Caffael | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm y pariadau data** | **163** | **28** | **108** | **20** | **7** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata cymhwysiad gwe’r Fenter Twyll Genedlaethol

*This document is available in English*

Eitem Agenda 7

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **15 Rhagfyr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis, MIAA** |
| Pwnc | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Rhagfyr 2025** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan MIAA, darparwyr archwilio mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 hyd at 30 Tachwedd 2025.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. Penodwyd MIAA ym mis Mehefin 2023 i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Awdurdod.

3 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26 hyd at 30 Tachwedd 2025 yn erbyn y cynllun archwilio mewnol y cytunwyd arno.

4 Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod dau archwiliad wedi'u cwblhau yn y cyfnod adrodd. Fe wnaeth yr archwiliad cynllunio busnes roi lefel sylweddol o sicrwydd, gyda chytundeb ar bedwar argymhelliad risg canolig ac un risg isel. Mae adolygiad y Fenter Twyll Genedlaethol wedi cadarnhau bod pob pâr wedi'i ymchwilio ac nad oes angen uwchgyfeirio unrhyw faterion ymhellach.

## ARGYMHELLION

5 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2025/26.**

## CEFNDIR

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

7 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, ac mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ganfyddiadau'r archwiliad. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

## GWYBODAETH

8 Mae'r adroddiad yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod 2025/26 hyd at 30 Tachwedd 2025, ac mae'n cadarnhau bod yr adolygiadau cynllunio busnes a'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod adrodd.

9 Roedd yr archwiliad cynllunio busnes yn rhoi sicrwydd sylweddol, a gwnaeth bedwar argymhelliad risg canolig ac un risg isel ar gyfer gwelliant pellach. Mae'r rheolwyr wedi cytuno â'r argymhellion hyn.

10 Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan yn ymarferiad y Fenter Twyll Genedlaethol. Pwrpas yr ymarferiad yw paru data a gedwir ar draws cyrff sector cyhoeddus. Nid yw canfod pâr yn gadarnhad o dwyll, ond mae'n ffordd o dynnu sylw at feysydd sydd angen sylw pellach. Mae'r adroddiad diweddaru yn cadarnhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) wedi ymgymryd â gwaith i ymchwilio i bob pâr ac nad oedd unrhyw faterion nodedig i'w huwchgyfeirio.

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol sy'n cael eu rheoli'n briodol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hwy. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r broses ar gyfer pennu cyllideb yn effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| Staffio | Mae adolygu systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod taliadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldebau / Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Mae arweinydd ymgysylltu MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae archwiliad mewnol y prosesau ariannol craidd yn cefnogi nodi a rheoli risgiau yn effeithiol. |

# Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Pwyllgor Archwilio (Rhagfyr 2025)

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

miaa

# Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Negeseuon Allweddol at Sylw'r Pwyllgor Archwilio

Atodiad A: Perfformiad y Contract

Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Atodiad C: Meysydd Allweddol a Chamau Gweithredu i'w Cyflawni

Atodiad D: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

## Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU)

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU).

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 ac yn tynnu eich sylw at faterion sy'n berthnasol i'ch cyfrifoldebau fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn rhoi crynodeb o'r gweithgarwch Archwilio Mewnol ac yn cydymffurfio â gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU).

Rhoddir adroddiadau cynhwysfawr sy'n manylu ar ganfyddiadau, argymhellion a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt i'r sefydliad, ac maent wedi'u cynnwys ym mhapurau'r Pwyllgor Archwilio. Hefyd, adroddir ar y sefyllfa gyfunol o safbwynt y camau dilynol o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn ymdrin â'r cyfnod o 1 Medi tan 30 Tachwedd 2025.

## 3 Crynodeb Gweithredol

| **Adolygiadau Archwilio 2025/26** |
|---|
| Mae'r adolygiadau canlynol wedi'u cwblhau:<br>• Cynllunio Busnes (Sicrwydd Sylweddol)<br>Fe wnaeth ein hadolygiad nodi sawl maes lle'r oedd arferion da, gan gynnwys cymeradwyo/gweithredu Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29 (CRhRC) a'r trefniadau llywodraethu o ran gosod cyllideb ar gyfer 2025/26. Roedd y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CRMIP) ar gyfer 2025/26 yn dangos cysylltiadau clir ag egwyddorion ac amcanion yr Awdurdod Tân mewn perthynas â chanllawiau cenedlaethol. Pan wnaed yr adolygiad, cafwyd cadarnhad bod templedi newydd wedi'u creu ar gyfer achosion amlinellol strategol ac ar gyfer achosion busnes llawn. Fel rhan o'n hadolygiad, cawsom ddau achos amlinellol strategol drafft ar gyfer 2026/27, ac fe wnaethom gadarnhau bod rhai o'r materion a amlygwyd ar yr hen dempled wedi cael sylw. Gwnaed argymhellion mewn perthynas â chysondeb wrth gwblhau achosion busnes (yn yr hen dempled) a thystiolaeth o werthusiadau dilynol ar gyfer achosion busnes. Hefyd, nododd ein hadolygiad o'r cynlluniau adrannol nad oedd y daenlen wedi'i chwblhau yn gyson ar gyfer pob amcan adrannol, ac y dylai cysylltiad clir fodoli rhwng y cynlluniau adrannol ac amcanion personol staff o fewn y ddogfennaeth arfarnu ar gyfer pob lefel staff.<br>• Y Fenter Twyll Genedlaethol (Nodyn Briffio wedi'i gyhoeddi)<br>Gall MIAA gadarnhau bod yr holl barau wedi cael eu hadolygu ac nad oedd unrhyw achosion o dwyll neu ordaliadau wedi'u nodi. Mae'r ymarferiad bellach wedi dod i ben.<br>Gweler Atodiad C am fanylion y Meysydd Allweddol a'r Camau Gweithredu i'w Cyflawni |

Mae'r adolygiadau canlynol ar y gweill:

- Systemau Ariannol Allweddol (Gwaith Maes)
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb (pan mae'n ofynnol)

## Camau Dilynol

Mae ein gwaith dilynol yn digwydd ar hyn o bryd.

## Newidiadau i'r Cynllun Archwilio

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ar gyfer unrhyw newidiadau i'r cynllun gwreiddiol ac amlygir hynny ar wahân isod i hwyluso'r broses fonitro.

Nid oes unrhyw gynigion ar hyn o bryd i newid y cynllun archwilio a gymeradwywyd.

## MIAA – Darparwr â sicrwydd ar gyfer Cynllun Archwilio Seiber Gwydnwch NCSC

**Rydym yn falch o gyhoeddi bod MIAA wedi cael cydnabyddiaeth swyddogol fel darparwr â Sicrwydd o dan Fframwaith Asesu Seiber (CAF) y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC).**

Mae'r achrediad hwn yn garreg filltir bwysig i MIAA ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i helpu sefydliadau i gryfhau eu gwytnwch seiber ac i ddiogelu systemau a gwasanaethau critigol.

Daw'r cyflawniad hwn yn sgil proses asesu drylwyr, ac mae'n dangos ein bod yn gymwys wrth archwilio yn erbyn Fframwaith Asesu Seiber yr NCSC. Mae'n tynnu sylw at sgiliau a phrofiad arbennig y staff, yn ogystal â'u hymrwymiad sefydliadol i'r safonau seiberddiogelwch uchaf. Er bod hyn yn gyflawniad mawr i MIAA, y cleientiaid sy'n cael y budd mwyaf, gan ei fod yn rhoi hyder iddyn nhw eu bod yn ymgysylltu ag unigolion medrus iawn sy'n cynnal archwiliadau dibynadwy ac o ansawdd uchel.

Mae'r cynllun Archwiliad Gwytnwch Seiber (CRA) yn rhoi sicrwydd i sefydliadau sy'n cyflwyno archwiliadau seiber annibynnol, gyda ffocws cryf ar y Fframwaith Asesu Seiber (CAF). Trwy ddod yn Ddarparwr â Sicrwydd NCSC, mae MIAA wedi dangos:

- Arbenigedd mewn archwilio yn erbyn y Fframwaith Asesu Seiber.
- Annibyniaeth ac uniondeb wrth gyflwyno asesiadau o ansawdd uchel.
- Ymroddiad i helpu sefydliadau i reoli risgiau seiber pan fo bygythiadau'n newid trwy'r adeg.

Mae'r gydnabyddiaeth hon yn arbennig o bwysig i sefydliadau sydd angen archwiliadau annibynnol o'u cyflwyniad Pecyn Cymorth Diogelwch a Diogelu Data y GIG, gan fod GIG Lloegr yn argymell yn gryf defnyddio archwilydd â sicrwydd gan gynllun Archwiliad Gwytnwch Seiber. Gyda'r gydnabyddiaeth hon, gall cleientiaid fod yn sicr bod archwiliadau DSPT yn cael eu cyflwyno i'r safonau uchaf sy'n adlewyrchu manylion y Fframwaith Asesu Seiber a chanllawiau archwilio DSPT y GIG ei hun.

## Gwerth Ychwanegol

### Nodiadau Briffio

Dyma ein nodiadau briffio/blogiau/podlediadau diweddaraf:

- Cyfres Llyfrynnau Simple AI: Helping the NHS Understand Artificial Intelligence
- Celebrating 10 Years of the MIAA Internship Programme: Reflections from Our 2024 Interns
- 25/26 MIAA Insight - AI Governance Checklist

### Digwyddiadau

- Powerful Allyship: Everyone's Role (21st January 2026): Yn y dosbarth meistr hwn byddwn yn rhannu'r egwyddorion a'r arferion ynghylch cynghreiriaeth ac yn arddangos yr effaith gadarnhaol y mae cynghreiriaeth yn ei chael ar ddiwylliant ac ar gynhyrchiant sefydliadol. Byddwn yn ystyried ein cyfraniad ni i gyd fel cynghreiriaid, ac yn edrych ar yr offer ymarferol a all hwyluso arweinwyr i feithrin amodau lle gall cynghreiriaid ffynnu.

## Atodiad A: Perfformiad y Contract

Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU) yn nodi: ‘Yn sector cyhoeddus y DU, mae’n rhaid i brif swyddog archwilio baratoi casgliad cyffredinol o’r fath o leiaf unwaith y flwyddyn i gefnogi adrodd llywodraethiant ehangach, gan ystyried unrhyw rwymedigaethau neu brosesau penodol yn y sector. Rhaid i'r casgliad cyffredinol hwn gynnwys llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth.' Mae'r tabl yn crynhoi gwaith cyflawni Barn eich Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26:

| Maes Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol | Cytuno ar Gylch Gorchwyl | Statws | Lefel Sicrwydd | Adroddiad y Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Risg - Rheolaethau Craidd | | Cyflawni Ch4 | | Mawrth 2026 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amherthnasol | Rhagfyr 2025 |
| Systemau Ariannol Allweddol | ✓ | Gwaith Maes | | Mawrth 2026 |
| Cynllunio Busnes | ✓ | Wedi ei gwblhau | Sylweddol | Rhagfyr 2025 |
| Rheoli Asedau Offer | ✓ | Wedi ei gwblhau | Cyfyngedig | Medi 2025 |
| Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb | Amh. | Yn ôl yr angen | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Camau Dilynol | | | | |
| Ch1 | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amh. | Mehefin 2025 |
| Ch2 | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amh. | Medi 2025 |
| Ch4 | Amh. | Ar y gweill | | Mawrth 2026 |

## Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Y prif fesur o berfformiad eich archwilydd mewnol yw'r allbynnau sy'n deillio o'r gwaith a wnaed. Mae'r canlynol yn rhoi gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad i gefnogi'r Pwyllgor wrth asesu perfformiad yr Archwiliad Mewnol.

| Elfen | Adrodd ar Reoleidd-dra | Statws | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol (Cynnydd yn erbyn y Cynllun) | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | Dim materion i'w hadrodd |
| Cyhoeddi Holiadur Boddhad Cleientiaid ar ôl cwblhau pob archwiliad. | Mae pob adroddiad Terfynol yn cynnwys holiadur i gasglu adborth cleientiaid | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion a godwyd y cytunwyd arnynt | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion sy'n cael eu gweithredu | Adroddir ar gamau dilynol ddwywaith y flwyddyn | Gwyrdd | |
| Staff Cymwysedig | Blynyddol | Gwyrdd | Mae gan MIAA weithlu cymwys iawn ac amrywiol sy'n cynnwys 65% o staff cymwys. Mae gan yr Uwch Dîm sy'n darparu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i GTAGC gymwysterau CCAB/IIA. |
| Ansawdd | Blynyddol | Gwyrdd | Mae MIAA yn gweithredu systemau i Safonau Ansawdd ISO. Mae MIAA yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU). |

## Atodiad C: Meysydd Allweddol o'n Gwaith a'r Camau Gweithredu i'w Cyflawni

| **Teitl yr Adroddiad** | **Cynllunio Busnes** | | | |
|---|---|---|---|---|
| Noddwr Gweithredol | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | | | |
| Lefel Sicrwydd | Sicrwydd Sylweddol – Mae system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y system, ac mae’r rheolaethau’n cael eu gweithredu’n gyson ar y cyfan. | | | |
| Amcan | Gwerthuso effeithiolrwydd y systemau a'r prosesau a oedd ar waith i sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn mewn perthynas â'r gyfatebiaeth rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio adrannol. Fe wnaeth yr adolygiad ystyried datblygu, adolygu a chymeradwyo achosion busnes. | | | |
| Argymhellion | 0 x Critigol | 0 x Uchel | 4 x Canolig | 1 x Isel |
| Crynodeb | • Mae gan y Gwasanaeth Gynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 5 mlynedd ar waith – sy'n cwmpasu'r cyfnod 2024-2029. Nodwyd gennym fod y cynllun yn cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol y Bwrdd Safonau Tân.<br>• Cyn cyhoeddi'r Cynllun terfynol, fe wnaethom gadarnhau ein bod wedi ymgysylltu â budd-ddeiliaid allweddol fel rhan o'r broses gynllunio. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cyflwyniadau gyda lefelau amrywiol o staff, yn ogystal â chael adborth gan fudd-ddeiliaid allanol trwy god QR.<br>• Cyflwynwyd yr Adroddiad Ymgynghori drafft ar y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CRMIP) 5 mlynedd i'r Awdurdod Tân ac Achub yng nghyfarfod Ebrill 2025. Cadarnhaodd adolygiad o'r adroddiad fod gwaith ymgysylltu â budd-ddeiliaid wedi'i gynnal trwy ymgynghoriad cyhoeddus.<br>• Roedd canllawiau cynllunio adrannol ar waith, dyddiedig Mehefin 2024. Roedd yn cyfeirio defnyddwyr at y Cynllun, er mwyn sicrhau bod amcanion adrannol yn cael eu llunio yn unol ag uchelgeisiau 2029 y Gwasanaeth. | | | |

| | |
|---|---|
| | • Fe welsom fod cynlluniau adrannol ar waith ar gyfer pob adran o'r Gwasanaeth. Nodwyd bod y cynllun adrannol o fewn Cyllid ar gael i staff fel copi printiedig yn y swyddfa, er mwyn i bawb allu ei ddefnyddio a'i weld yn rheolaidd.<br>• Nododd ein hadolygiad fod y templedi safonol ar gyfer achosion busnes llawn ac achosion amlinellol strategol wedi'u hadnewyddu a'u diwygio ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Yn ogystal, roedd canllawiau ar gael ar sut i gwblhau'r templedi newydd hyn.<br>• Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi yn ddiweddar ar gyfer staff er mwyn eu helpu i gwblhau'r ddogfennaeth achos busnes newydd (gan ddefnyddio'r templedi wedi'u diweddaru). Roedd hyn ar gyfer achosion amlinellol strategol (£10k+) ac achosion busnes llawn (£261k+).<br>• Profwyd sampl o 13 achos busnes ar gyfer cyfalaf a refeniw, a gwelwyd bod pob ffurflen â dyddiad a'u bod yn cynnwys crynodeb gweithredol. Roedd hyn yn manylu ar beth fyddai'r prosiect yn ei gyflawni, y manteision, amcangyfrif o'r costau a sut y byddai'n cael ei ariannu.<br>• Fe wnaeth profi'r 13 achos busnes gadarnhau eu bod yn cytuno â'r cynlluniau cyfalaf a refeniw, a'r cadarnhad cyllideb.<br>• Nododd adolygiad o gofnodion y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd 2024 fod y rhaglen gyfalaf a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2025/26 yn tynnu sylw at yr amserlenni a'r cerrig milltir ar gyfer cyllidebau ac y byddai angen achos busnes ar bob gwariant newydd dros £10k. Cyflwynwyd y cynigion cyfalaf ar gyfer pob adran hefyd.<br>• Cafwyd diweddariad cynnydd yn erbyn yr amcanion y CRhRC yng nghyfarfod SLT ym mis Tachwedd 2024. Yn yr un modd, cadarnhaodd cofnodion cyfarfod Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth ym mis Ionawr 2025 fod y CRhRC wedi'i gyflwyno a gofynnwyd am adborth cyn ei gymeradwyo yn derfynol.<br>• Rhoddwyd asesiad perfformiad blynyddol i'r Panel Gweithredol ym mis Medi 2025 a oedd yn cynnwys trosolwg o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ei amcanion ar gyfer 2024/25.<br>• Roedd Cynlluniau Adrannol Chwarter 1 ar gyfer 2025/25 wedi'u rhannu a'u trafod yng nghyfarfod Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth ym mis Awst 2025, yn ogystal â sut y mae'r CRhRC wedi ymgorffori'r Cod Moeseg Craidd. |

| | |
|---|---|
| Meysydd Allweddol y Cytunwyd i Weithredu Arnynt | • Mewn adolygiad o'r daenlen gynllun adrannol a phrofi 3 adran – Perfformiad, Cynllunio a Thrawsnewid, Atal a Diogelu ac Ymateb – gwelwyd nad oedd diweddariadau chwarterol wedi cael eu darparu'n gyson. Hefyd, nid oedd yr amcanion yn cael eu cwblhau'n llawn bob tro. Er enghraifft, nid oedd yr egwyddorion priodol, y nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio wedi'u dewis ar gyfer rhai o'r amcanion. (Risg Ganolig)<br>• Nid oedd proses ôl-werthuso achosion busnes/prosiectau yn glir/amlwg. (Risg Ganolig)<br>• Profwyd sampl o 13 achos busnes ar gyfer 2024/25 a 2025/26 (gan ddefnyddio'r hen dempled) a gwelwyd nad oedden nhw wedi'u cwblhau'n gyson. (Risg Ganolig)<br>• Nid oedd llawer o dystiolaeth i ddangos cysylltiad rhwng cynlluniau adrannol ac amcanion personol staff. Nododd adolygiad o ddogfennaeth arfarnu ar gyfer gweithwyr sydd ddim yn rheolwyr, rheolwr goruchwylio a rheolwyr canol nad oedd unrhyw gyfeiriad at werthoedd craidd a chynlluniau adrannol. Er hyn, gwelodd adolygiad o'r ddogfennaeth arfarnu Cyllid fod adran a oedd yn cynnwys amcanion y tîm ar gyfer y flwyddyn i ddod a sut y bydd staff yn dangos gwerthoedd craidd y Gwasanaeth. (Risg Ganolig)<br>• Roedd achosion busnes wedi'u cymeradwyo fel rhan o gynlluniau cyfalaf yr Adran; fodd bynnag, nid oedd yn glir ble roedd achosion busnes unigol wedi'u codi a'u cymeradwyo. (Risg Isel)<br>• Nododd adolygiad o bapurau cyfarfod diweddar Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth nad oedd diweddariad blynyddol wedi'i ddarparu ar y gweithrediad yn erbyn y CRhRC. (Risg Isel) |

# Atodiad D: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| Uchel | Mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y system, ac mae'r rheolaethau yn cael eu gweithredu'n gyson ym mhob maes a adolygwyd. |
| Sylweddol | Mae system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y system, ac mae'r rheolaethau'n cael eu gweithredu'n gyson ar y cyfan. |
| Cymedrol | Mae system ddigonol o reolaeth fewnol; fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran cynllunio a/neu weithredu rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y system. |
| Cyfyngedig | Mae'r system o reolaeth fewnol dan fygythiad gan fod gwendidau o ran cynllunio a/neu weithredu mesurau rheolaeth yn anghyson yn peryglu cyflawni amcanion y system. |
| Dim | Mae system annigonol o reolaeth fewnol gan fod gwendidau o ran rheolaeth a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau wedi, neu fe allai, arwain at fethu â chyflawni amcanion y system. |

| Sgôr Risg | Rhesymeg Asesu |
|---|---|
| Critigol | Gwendid rheoli a allai gael effaith sylweddol nid yn unig ar amcanion y system, swyddogaeth neu broses ond hefyd ar gyflawni amcanion y sefydliad mewn perthynas â:<br>• defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau<br>• diogelu asedau<br>• paratoi gwybodaeth ariannol a gweithredol ddibynadwy<br>• cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. |
| Uchel | Gwendid rheoli sydd wedi neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion allweddol y system, y swyddogaeth neu'r broses. Nid yw'r gwendid hwn, er ei fod yn cael effaith fawr o ran y system, swyddogaeth neu broses, yn cael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. |
| Canolig | Gwendid rheoli:<br>• sy'n cael effaith fach ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses;<br>• sydd wedi golygu bod y system, swyddogaeth neu broses yn agored i risg allweddol, ond mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd yn isel. |
| Isel | Gwendid rheoli nad yw'n effeithio ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses; fodd bynnag, byddai gweithredu'r argymhelliad yn gwella rheolaeth gyffredinol. |

## Cyfyngiadau

Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol yw’r rhai a godir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gallai fod angen eu gwneud. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau bod yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn mor gywir â phosibl, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd a'r ddogfennaeth a adolygwyd, ni ellir rhoi gwarant gyflawn o ran y cyngor a'r wybodaeth a gynhwysir yma. Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwallau, colled na thwyll materol yn bodoli.

Mae'r cyfrifoldeb dros system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall yn parhau i fod yn nwylo’r rheolwyr ac ni ddylid dibynnu ar waith a gyflawnir gan archwiliad mewnol i nodi'r holl gryfderau a gwendidau mewn rheolaethau mewnol, na dibynnu arno i nodi pob amgylchiad o dwyll neu afreoleidd-dra. Mae’n bwysig bod rheolwyr yn gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn amserol er mwyn cynnal system reoli fewnol ddibynadwy.

Mae adroddiadau a baratowyd gan MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid yw MIAA na'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb ar gyfer unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol. Ni dderbynnir atebolrwydd i unrhyw drydydd parti gan nad yw’r adroddiad wedi’i baratoi ar gyfer, ac nid yw wedi’i fwriadu ar gyfer, unrhyw ddiben arall ac ni fydd gan berson nad yw’n barti i’r cytundeb ar gyfer darparu Archwiliad Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999.

**Anne-marie Harrop**

Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07920 150313

E-bost: Anne-marie.harrop@miaa.nhs.uk

**Angharad Ellis**

Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07469 378328

E-bost: Ann.ellis@miaa.nhs.uk



miaa

*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **15 Rhagfyr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Adroddiad Rheoli Trysorlys Ch2 2025/26** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am weithgarwch rheoli trysorlys ac am gydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod o 1 Mehefin 2025 hyd at 30 Medi 2025.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ym mis Rhagfyr 2003, mabwysiadodd yr Awdurdod God Ymarfer *Treasury Management in the Public Services* (2021) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo, fan lleiaf, adroddiadau alldro blynyddol ac adroddiadau hanner blwyddyn ynghylch rheoli trysorlys.

3 Roedd Cod CIPFA hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i roi adroddiadau chwarterol ar y dangosyddion rheoli trysorlys o fis Ebrill 2023 ymlaen. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u cynnwys yn adroddiad monitro refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod.

4 Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2025/26 mewn cyfarfod ar 28 Ebrill 2025. Gan fod yr Awdurdod yn benthyca ac yn buddsoddi symiau sylweddol o arian, rhaid rhoi ystyriaeth i risgiau ariannol, gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith newid mewn cyfraddau llog ar refeniw. Mae nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn parhau i fod yn rhan ganolog o strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.

5 Yn ystod y flwyddyn, roedd lefelau benthyca a buddsoddi'r Awdurdod yn gyfforddus o fewn y terfynau a osodwyd yn wreiddiol. Ni chafwyd unrhyw ddiffygdalu newydd gan fanciau lle mae'r Awdurdod wedi adneuo arian.

**ARGYMHELLION**

6 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) nodi'r gweithgareddau rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 30 Medi 2025.**

## CYD-DESTUN ALLANOL

7 Cynyddodd prif Fynegai Prisiau Defnyddwyr y DU (CPI) dros y cyfnod, gan godi o 2.6% ym mis Mawrth i 3.8% ym mis Awst, o hyd ymhell uwchlaw targed Banc Lloegr o 2%. Cynyddodd chwyddiant craidd hefyd, o 3.4% i 3.6% dros yr un cyfnod, er bod y ffigur ym mis Awst wedi gostwng o 3.8% y mis blaenorol. Gostyngodd chwyddiant gwasanaethau hefyd rhwng Gorffennaf ac Awst, i 4.7% o 5%.

8 Torrodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) Gyfradd y Banc i 4% ym mis Awst.

9 Cynhaliodd cynghorydd trysorlys yr Awdurdod ei farn y byddai Cyfradd y Banc yn parhau i ostwng, ac y byddai Banc Lloegr yn canolbwyntio mwy ar dwf GDP gwan yn hytrach na chwyddiant sydd uwchlaw'r targed. Disgwylir un toriad arall yn ystod 2025, gan fynd â'r brif gyfradd bolisi i 3.75%.

## CYD-DESTUN LLEOL

10 Ar 30 Medi 2025, roedd benthyciad net yr Awdurdod yn £15.32m yn deillio o wariant cyfalaf.

11 Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), ac adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1 isod.

12 Mae Tabl 1 yn cadarnhau bod benthyciadau net yr Awdurdod yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR).

**Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen**

| | **31.03.25 Gwirioneddol £m** | **30.09.25 Gwirioneddol £m** |
|---|---|---|
| CFR y Gronfa Gyffredinol | 31.01 | 24.83 |
| Benthyca allanol | -19.07 | -15.32 |
| **Benthyca mewnol** | **11.94** | 9.51 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -14.46 | -14.46 |
| Llai: Buddsoddiadau Newydd | 2.52 | 4.95 |
| **Benthyca newydd** | **0.00** | 0.00 |

13 Mae'r sefyllfa rheoli trysorlys ar 30 Medi a'r newid dros y flwyddyn yn cael eu dangos yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Crynodeb Rheoli Trysorlys**

| | 31.3.25 Balans | Symudiad | 30.09.25 Balans | 30.09.25 Cyfradd |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | % |
| Benthyca hirdymor | 8.46 | 1.80 | 10.26 | 2.81 - 4.80 |
| Benthyca byrdymor | 10.61 | -5.55 | 5.06 | 1.07 - 4.90 |
| **Cyfanswm y benthyca** | **19.07** | **-3.75** | **15.32** | |
| Buddsoddiadau byrdymor | 0.00 | -2.70 | -2.70 | 3.95 - 4.22 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | -2.52 | 0.27 | -2.25 | 3.25 - 4.34 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **-2.52** | **-2.43** | **-4.95** | |
| **Benthyca net** | **16.55** | **-6.18** | **10.37** | |

## BENTHYCA

14 Mae Cod Darbodus CIPFA 2021 yn amlinellu'r ffaith na ddylai awdurdodau lleol fenthyca er mwyn buddsoddi gyda'r nod pennaf o elwa'n ariannol. Nid yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf ac yn arwain at fenthyciadau newydd, oni bai ei fod yn uniongyrchol ac yn bennaf gysylltiedig â swyddogaethau'r Awdurdod.

15 Nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn asedau ar gyfer elw ariannol ac mae'r holl wariant yn gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.

## STRATEGAETH A GWEITHGARWCH BENTHYCA

16 Yn unol â'r strategaeth trysorlys, prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca yw mabwysiadu strategaeth risg isel, gan gydbwyso costau llog isel a chael sicrwydd cost trwy gydol y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Ail nod yw sicrhau hyblygrwydd i aildrafod benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid. Mae strategaeth fenthyca yr Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd, a hynny heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyled.

17 Mae cost benthyca tymor byr gan awdurdodau eraill wedi bod yn debyg i'r Gyfradd Sylfaenol yn ystod y cyfnod ar 4.0% i 4.5%.

18 Cyfradd sicrwydd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 10 mlynedd oedd 5.38% ar ddechrau'r cyfnod a 5.53% ar y diwedd. Y gyfradd aeddfedrwydd 10 mlynedd isaf oedd ar gael oedd 5.17% a'r uchaf oedd 5.62%. Roedd y cyfraddau ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 20 mlynedd yn amrywio o 5.71% i 6.30% yn ystod y cyfnod, a benthyciadau aeddfedrwydd 50 mlynedd yn amrywio rhwng 5.46% a 6.14%.

19 Ar 30 Medi 2025, roedd gan yr Awdurdod £15.32m o fenthyciadau, gostyngiad o £3.75m o'i gymharu â 31 Mawrth 2025. Darperir crynodeb o'r benthyciadau sy'n weddill ar 31 Mawrth yn Nhabl 3A isod.

**Tabl 3A: Sefyllfa o ran Benthyca**

| | 31.3.25 Balans £m | Symudiad Net £m | 30.09.25 Balans £m | 30.09.25 Cyfradd Gyfartalog wedi'i Phwysoli | 30.09.25 Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli (blynyddoedd) |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 14.073 | 1.246 | 15.319 | 3.51% | 6.470 |
| Awdurdodau lleol (tymor byr) | 5.00 | -5.00 | 0.000 | 0% | 0.410 |
| **Cyfanswm y benthyca** | **19.07** | **-3.75** | **15.319** | | |

20 Cymerodd yr Awdurdod fenthyciad awdurdod lleol tymor byr newydd o £5M ym mis Rhagfyr '24 a gafodd ei ad-dalu ym mis Awst '25. Mae pob benthyciad tymor byr arall gyda'r PWLB. Nid oes angen benthyca pellach tan fis Tachwedd; fodd bynnag, os ceir symudiad sydyn yn y farchnad gyda chyfraddau gwell bydd hyn yn cael ei ddefnyddio ar sail cyngor gan ein cynghorwyr trysorlys, Arlingclose.

**Tabl 3B: Benthyciadau hirdymor a fenthycwyd**

| | Swm £m | Cyfradd % | Cyfnod (Blynyddoedd) |
|---|---|---|---|
| Benthyciad Aeddfedrwydd PWLB | 2.00 | 4.80 | 27 |
| Benthyciad EIP PWLB | 0.59 | 3.09 | 12 |
| Benthyciad EIP PWLB | 4.17 | 3.91 | 15 |
| **Cyfanswm y benthyca** | **6.76** | | |

21 Nid yw penderfyniadau benthyca'r Awdurdod yn cael eu seilio ar unrhyw ganlyniad unigol o ran cyfraddau llog, ac mae'n ceisio cynnal portffolio cytbwys o fenthyca byrdymor a hirdymor.

**GWEITHGAREDD BUDDSODDI TRYSORLYS**

22 Cyhoeddodd CIPFA fersiynau diwygiedig o'r Cod Ymarfer ar Reoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a Nodiadau Canllaw Traws-Sectoraidd ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn diffinio buddsoddiadau rheoli trysorlys fel buddsoddiadau sy'n deillio o lifoedd arian neu weithgarwch rheoli risg trysorlys y sefydliad sydd, yn y pen draw, yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi nes bydd angen yr arian i'w ddefnyddio ar gyfer busnes.

23 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y chwe mis, roedd balansau buddsoddi'r Awdurdod yn amrywio rhwng £1.03m a £13.73m. Mae'r sefyllfa fuddsoddi yn cael ei dangos yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4: Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

| | 31.3.25 | | 30.09.25 | 30.09.25 | 30.09.25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Balans | Symudiad Net | Balans | Adenillion Incwm | Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli |
| | £m | £m | £m | % | dyddiau |
| Banciau a chymdeithasau adeiladu | 2.52 | -0.27 | 2.25 | 3.25-4.34 | Ar alwad |
| Cyfnod Penodol | | 0.00 | 0.00 | | |
| Llywodraeth Ganolog | | 2.70 | 2.70 | 3.95 | 6 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **2.52** | **7.43** | **9.95** | | |

24 Mae Cod CIPFA a chanllawiau'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei arian yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau trysorlys cyn ceisio'r gyfradd enillion neu incwm orau bosibl. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw cael y cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu a'r risg o gael incwm buddsoddi anaddas o isel.

25 Fel y mae'r meincnod atebolrwydd yn yr adroddiad hwn yn ei ddangos, mae'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf er mwyn rheoli llif arian parod o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.

26 Gostyngodd Cyfradd y Banc o 4.5% i 4.25% ym mis Mai, ac yna gostyngiad pellach i 4.00% ym mis Awst 2025. Mae cyfraddau llog tymor byr yn bennaf o gwmpas y lefelau hyn. Roedd y cyfraddau ar adneuon DMADF yn amrywio rhwng 3.95% a 4.45% a chyfraddau y farchnad arian rhwng 3.25% a 4.34%.

**CYDYMFFURFIAETH**

27 Mae'r holl weithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi cydymffurfio â'r egwyddorion yn y Cod Rheoli Trysorlys ac yn Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, fel y'i cymeradwywyd. Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ddau gyfrif galwadau sy'n cael eu defnyddio i osod adneuon tymor byr, gyda Lloyds Bank a Barclays Bank. Mae'r cyfraddau llog sy'n cael eu cynnig ar adneuon trysorlys yn tueddu i fod yn fwy ffafriol; fodd bynnag, cadwyd adneuon gyda Lloyds a Barclays yn ystod y cyfnod oherwydd y gofyniad hylifedd ar gyfer prynu'r tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd.

28 Mae'r Awdurdod hefyd yn defnyddio ei gyfrif gyda'r Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO), gan nad yw'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn rhoi cyfyngiad ar faint o arian y gellir ei roi i'r DMO.

29 Dangosir cydymffurfiaeth â therfynau buddsoddi penodol yn Nhabl 5 isod.

**Tabl 5: Terfynau Buddsoddi**

| Sefydliad | Disgrifiad | Terfyn | 30.09.25 Gwirioneddol | Wedi cydymffurfio? Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|
| Banciau | Holl fanciau'r DU a'u his-gwmnïau sydd â sgoriau da (Fitch neu gyfwerth). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel hirdymor (BBB) ar hyn o bryd. | £5m | **£2.25m** | do |
| Llywodraeth Ganolog | Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) | Diderfyn | **£2.70m** | do |
| Cronfeydd Marchnad Arian (MMF) | Dim ond ar y cyd â chyngor ar gyfer Arlingclose. | £1m fesul cronfa | **0** | do |
| Awdurdodau Lleol | Pob un ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor a phraeseptau dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 | £2m | **0** | do |
| Cymdeithasau Adeiladu | Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio) | £2m | **0** | do |
| Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn) | Cymdeithasau adeiladu heb sgôr ond gydag asedau o £1 biliwn neu fwy. | £2m/9 mis | **0** | do |

30 Dangosir Cydymffurfiaeth â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn Nhabl 6 isod.

**Tabl 6: Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol**

| | 30.09.25 Gwirioneddol £m | Ffin Weithredol 2025/26 £m | Terfyn Awdurdodedig 2025/26 £m | Wedi cydymffurfio? |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 15.32 | 28.99 | 30.99 | ✓ |
| **Cyfanswm y ddyled** | **15.32** | **28.99** | **30.99** | |

31 Gan fod y ffin weithredol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd achlysuron pan fydd y benthyca gwirioneddol yn fwy na'r targed hwn. Gallai hyn ddigwydd oherwydd amrywiadau yn y llif arian parod ac ni fyddai torri'r terfyn yn y byrdymor yn cyfrif fel methiant i gydymffurfio.

**DANGOSYDDION RHEOLI TRYSORLYS**

32 Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Awdurdod yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol o ran rheoli trysorlys.

**Meincnod Atebolrwydd**

33 Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu benthyca gwirioneddol yr Awdurdod ar hyn o bryd yn erbyn meincnod atebolrwydd a gyfrifwyd i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod atebolrwydd yn offeryn pwysig i helpu i benderfynu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac i addasu ei ffocws strategol a'i ddull o wneud penderfyniadau yn sgil hynny.

34 Mae'r dangosydd yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronnol y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gynnal er mwyn ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol, gan gadw buddsoddiadau trysorlys ar y lefel isaf o £2.0m sy'n ofynnol i reoli llif arian parod o ddydd i ddydd.


| | **31.03.25 Gwirioneddol £m** | **30.09.25 Gwirioneddol £m** | **31.03.26 Rhagolwg £m** | **31.03.27 Rhagolwg £m** |
|---|---|---|---|---|
| CFR Benthyciadau | 31.01 | 24.83 | 35.20 | 36.90 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -14.46 | -14.46 | -21.00 | -17.50 |
| **Gofyniad benthyciadau net** | 16.55 | 10.37 | 14.20 | 19.40 |
| A: Lwfans hylifedd | 2.00 | 2.00 | 2.00 | 2.00 |
| **Meincnod atebolrwydd** | **18.55** | **12.37** | **16.20** | **21.40** |
| **Benthyciadau presennol** | **-19.07** | **-15.32** | **-9.40** | **-7.90** |

35 Nid yw’r rhagolwg uchod yn cynnwys unrhyw gostau ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig.

36 Yn dilyn y rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod atebolrwydd hirdymor yn tybio gwariant cyfalaf a ariennir trwy fenthyca o £4m - £6m y flwyddyn, isafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar fywydau asedau cyfredol, yn unol â'r polisi cyfrifyddu, incwm a gwariant yn cynyddu yn unol â chwyddiant o 2.5% y flwyddyn a gostyngiad mewn cronfeydd wrth gefn. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol yr Awdurdod:

37 Mae'r graff yn dangos yr hyn y mae’r Awdurdod yn disgwyl bod angen ei fenthyca yn y blynyddoedd i ddod. Bydd gan yr Awdurdod ofyniad benthyca trwy’r adeg gan nad oes ganddo arian parod na chronfeydd wrth gefn sylweddol a dim ond mynediad cyfyngedig sydd ganddo at gyllid grant cyfalaf.

38 Mae'r llinell las yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca (y Gofyniad Ariannu Cyfalaf neu CFR). Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn a gwargedion (neu ddiffygion) cyfalaf gweithio wedi'u hystyried – mewn gwirionedd dyma'r gwir angen i fenthyca y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Atebolrwydd. Mae'r llinell goch doredig yn cynrychioli'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'r llinell solet yn cynrychioli'r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r rhannau llwyd yn dangos benthyciadau gwirioneddol. Pan fydd y rhan lwyd yn gostwng o dan y llinellau coch, mae'n golygu bod angen benthyca.




**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau**

39 Mae'r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risg ailariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd pob benthyciad oedd:

| | 30.09.25 Gwirioneddol | Terfyn Gwirioneddol | Terfyn Uchaf | Terfyn Isaf | Wedi Cydymffurfio? Do / Naddo |
|---|---|---|---|---|---|
| <12 mis | 4.2 | 27.42% | 60.00% | 0.00% | Do |
| 12 mis a <24 mis | 1.2 | 7.83% | 45.00% | 0.00% | Do |
| 24 mis a < 5 mlynedd | 3.00 | 19.58% | 45.00% | 0.00% | Do |
| 5 mlynedd a <10 mlynedd | | 0.00% | 75.00% | 0.00% | Do |
| >10 mlynedd | 6.92 | 45.17% | 100.00% | 0.00% | Do |

40 Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthyca yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

**Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Hirdymor**

41 Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau trysorlys hirdymor.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. Mae'n sicrhau bod pryniant asedau i gefnogi darparu gwasanaethau rheng flaen yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei phennu'n flynyddol ar gyfer ariannu cyfalaf yn unol â'r adroddiad Trysorlys. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi ym mharagraff 1. |
| **Staffio** | Dim. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim. |
| **Risgiau** | Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle buddsoddir arian y gwasanaeth fethu, gan arwain at golli rhan o'r prif fuddsoddiad. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lliniaru'r risg hon. |

*This document is available in English*

**Eitem Agenda 09**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **15 Rhagfyr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Pennu Cyllideb 2026/27** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr asesiad cynllunio ariannol i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27 a cheisio cymeradwyaeth i ddangos yr ardoll ddangosol i'r awdurdodau lleol cyfansoddol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ddarparu ffigurau dangosol ar gyfer ardoll ariannol 2026/27 i'r awdurdodau lleol cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr 2025, ac i gadarnhau'r ffigurau terfynol erbyn 15 Chwefror 2026. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw a chyfalaf ar gyfer 2026/27 yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2026. Mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb wedi craffu ar y broses o gynllunio'r gyllideb, ac mae'r asesiad cynllunio presennol o £54.375m wedi'i gadarnhau.

## ARGYMHELLION

3 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Nodi canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, gan gynnwys y rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2026/27;**

**ii) Nodi'r asesiad cynllunio ariannol cyfredol sy'n dangos gofyniad cyllideb refeniw o £54.375m a chyllideb gyfalaf o £6.661m ar gyfer 2026/27;**

**iii) Nodi'r cynnig i ddefnyddio £0.271m o'r gronfa wrth gefn ar gyfer 2026/27; a**

**iv) chymeradwyo rhoi gwybod am yr ardoll ariannol ddrafft o £54.104m gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.**

## CEFNDIR

4 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys sydd â chymeradwyaeth yr Awdurdod llawn. Rhaid cyfleu'r ardoll ariannol ddangosol i awdurdodau lleol cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn, a rhaid cadarnhau'r ardoll derfynol erbyn 15 Chwefror, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Er mwyn bodloni'r amserlenni hyn, bydd y cyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig ar gyfer 2026/27 yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod yn eu cyfarfod ar 19 Ionawr 2026.

5 Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau feddu ar gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y bydd gwariant yn cael ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig. O ganlyniad, mae cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar gostau ac ar werthuso risgiau ac ansicrwydd.

6 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, mae gwaith yn mynd rhagddo i wella argaeledd yng nghefn gwlad; fodd bynnag, ni fydd arbedion yn cael eu gwireddu gan na chafodd opsiynau sy'n cynnwys arbedion sy'n rhyddhau arian parod eu cymeradwyo gan yr Awdurdod. Bydd y cynllun peilot Criwio Cnewyllyn ym Mhorthmadog a Dolgellau yn cael ei fonitro yn ystod 2026/27.


7 Mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb (y Gweithgor), a sefydlwyd i graffu ar y broses o osod cyllidebau, yn goruchwylio'r broses.

## GWYBODAETH

8 Sefydlwyd y Gweithgor gan yr Awdurdod ac mae pob awdurdod lleol cyfansoddol yn cael ei gynrychioli arno. Mae'r Gweithgor wedi ymgynnull ar bum achlysur i adolygu pob agwedd ar wariant Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth). Roedd y cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar feysydd allweddol, gan gynnwys costau cyflogau uniongyrchol, gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau, ariannu cyfalaf, llog, a threfniadau prydlesu.

9 Gwnaed gwaith cynllunio cyllideb manwl yn unol â'r rhagdybiaethau cynllunio allweddol, y risgiau, a'r amheuon sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1.

10 Nododd y gwaith cychwynnol o gynllunio'r gyllideb mewn manylder bwysau ychwanegol anochel, ac mae'r Gweithgor bellach wedi mynd i'r afael â'r pwysau hwnnw. Mae'r asesiad drafft terfynol yn gosod gofyniad cyllidebol o £54.375m. Ar ôl defnyddio £0.271m o'r gronfa wrth gefn, £54.104m yw'r gofyniad ardoll ar gyfer 2026/27, sy'n cynrychioli cynnydd gros o 4% yn yr ardoll ar awdurdodau lleol.




11 Mae dadansoddiad drafft o'r gofyniad ardoll o £54.104m ar gyfer pob awdurdod lleol cyfansoddol i'w weld yn Atodiad 2.

12 Mae'r tabl isod yn cadarnhau gostyngiadau o £1.349m yn y gofyniad cyllidebol a nodwyd drwy waith y Gweithgor yn ystod y flwyddyn.

| £'m | 2025/26 | 2026/27 Drafft 1 | 2026/27 Drafft 2 | 2026/27 Y Gyllideb Arfaethedig | Newidiadau drwy Graffu ar y Gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 36.915 | 39.152 | 38.844 | 38.732 | 0.420 |
| Costau nad ydynt yn gyflogau | 16.513 | 17.700 | 17.167 | 16.810 | 0.890 |
| Incwm | -1.039 | -1.128 | -1.211 | -1.166 | 0.038 |
| **Cyfanswm** | **52.389** | **55.724** | **54.800** | **54.375** | **1.348** |

13 Disgwylir i gostau gweithwyr gynyddu o £36.915m yn 2025/26 i £38.732m yn 2026/27, sy'n cynrychioli cynnydd o 4.9%. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys dyraniad o £0.352m i ehangu capasiti'r sefydliad, yn unol ag argymhellion Cynghorydd Tân Cymru ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol. Heb gynnwys y costau ychwanegol hyn, mae'r cynnydd sylfaenol flwyddyn ar ôl blwyddyn yn 4%.

14 Mae darpariaethau wedi'u cynnwys i gefnogi twf parhaus y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS), gyda rhagdybiaeth recriwtio ychwanegol o 15 swydd i sicrhau bod gallu ymateb a gwytnwch yr ochr weithredol yn cael eu cynnal.

15 Mae pwysau ariannol ychwanegol sy'n deillio o effaith recriwtio yn 2025/26, cynnydd staff o ddatblygiad i gyflog cymwys, a gwerthuso swyddi wedi'u lliniaru drwy arbedion a lleihad mewn cyfraniadau cyflogwyr i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

16 Mae'r broses gynllunio cyllideb yn ymgorffori prif risgiau a rhagdybiaethau, yn enwedig bod dyfarniadau cyflog yn seiliedig ar gyfradd chwyddiant o 3.8%. Bydd unrhyw setliad sy'n uwch na'r gyfradd hon yn arwain at bwysau cost ychwanegol y tu hwnt i'r cynnig cyllideb presennol. Mewn achosion o'r fath, bydd mesurau mewnol yn cael eu gweithredu i liniaru'r effaith yn y tymor byr, gan gynnwys defnyddio'r gronfa gyffredinol a chronfeydd wrth gefn penodol.

17 Rhagwelir y bydd costau nad ydynt yn gyflogau yn cynyddu o £12.012m yn 2025/26 i waelodlin ddiwygiedig o £12.309m ar gyfer 2026/27. Mae defnyddio £0.271 miliwn o gronfeydd wrth gefn ar gyfer gwariant untro yn lleihau cyfanswm effaith yr ardoll i £12.039 miliwn. Mae'r cynnydd o fewn y flwyddyn yn cynnwys ailddosbarthu gwariant cyfalaf penodol, e.e. refeniw, yn dilyn adolygiad mewnol i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau CIPFA.

18 Tybir y bydd incwm yn codi o £1.039 miliwn yn 2025/26 i £1.166 miliwn yn 2026/27. Mae'r incwm ychwanegol hwn yn gwrthbwyso pwysau cyflog a phwysau nad yw'n gyflog o £0.082 miliwn, ac mae'n cynnwys cyllidebau ar gyfer gwerthu cerbydau (£0.100 miliwn) a'r llog a ddisgwylir ar fuddsoddiadau (£0.037 miliwn). Mae'r enillion hyn yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad o £0.092m mewn cyllid grant hysbys a Chytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG).

19 Cynigir dyraniad cyfalaf o £6.661m ar gyfer 2026/27; fodd bynnag, dim ond ar ôl i'r holl achosion busnes cysylltiedig gael eu datblygu'n llawn, ac wedi iddyn nhw fod yn destun craffu trylwyr, y bydd cynlluniau'n symud ymlaen. Rhagwelir y bydd costau cyllido cyfalaf yn parhau i fod yn sefydlog ar £4.501 miliwn, gan adlewyrchu gostyngiadau yn yr Isafswm Darpariaeth Refeniw (£0.027 miliwn) a chostau prydles (£0.076 miliwn). Mae'r arbedion hyn yn cael eu gwrthbwyso gan ddarpariaeth o £0.060m ar gyfer Gwariant Cyfalaf o'r Cyfrif Refeniw (CERA) a chynnydd mewn llog sy'n daladwy, wedi'i yrru gan ailbroffilio'r llyfr benthyciadau tuag at fenthyca tymor hwy er mwyn rhoi sicrwydd a pharhad.

## GWAITH PELLACH

20 Bydd achosion busnes ar gyfer cyfalaf newydd ac ariannu nad yw'n gyflog yn destun craffu mewnol pellach i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion strategol y sefydliad, yn lliniaru risgiau'n effeithiol, ac yn cydymffurfio ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Bydd y broses hon yn rhoi sicrwydd bod buddsoddiadau arfaethedig yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor, yn sicrhau gwerth am arian, ac yn cefnogi nodau ehangach llesiant economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

21 Bydd yr asesiad cynllunio ariannol drafft yn cael ei fireinio ymhellach, a bydd yn cael ei ddiweddaru yn yr asesiad terfynol sydd i'w gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2026.

22 Mae adroddiadau Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2026/27 yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Ar ôl eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid a Chaffael, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod er mwyn iddyn nhw graffu arnyn nhw a'u cymeradwyo yn y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth, gyda'r gymeradwyaeth derfynol wedi'i drefnu yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 20 Ebrill 2026.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r cynigion yn cefnogi Amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod drwy sicrhau cynaliadwyedd ariannol a gwytnwch gwasanaethau. |
| Cyllideb | Mae'r asesiad cynllunio yn cadarnhau gofyniad cyllidebol o £54.375m, gyda £0.271m o gronfeydd wrth gefn wedi'u defnyddio i leihau effaith yr ardoll. |
| Cyfreithiol | Rhaid i'r Awdurdod osod cyllideb gytbwys yn unol â gofynion statudol a chanllawiau CIPFA. |
| Staffio | Mae costau staffio yn cynrychioli dros 70% o gyfanswm y gwariant. Mae risgiau allweddol yn cynnwys ansicrwydd ynghylch dyfarniadau cyflog, heriau recriwtio ar gyfer staff dyletswydd ar alwad, a chynnal gwytnwch corfforaethol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd y materion hyn yn cael ystyriaeth o fewn y cynigion ar gyfer pennu’r gyllideb. |
| Risgiau | Mae Manylion am y prif risgiau ac ansicrwydd i’w cael yn Atodiad 1. |

**Atodiad 1**
**Crynodeb o ragdybiaethau a risgiau cynllunio**

| **Pennawd** | **Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb** | **Risgiau/Ansicrwydd** |
|---|---|---|
| Costau gweithwyr | • Cyllidebau staffio yn seiliedig ar fodelau cyflwyno gwasanaethau presennol ac ar ganlyniadau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (2023).<br>• Mae cyllideb y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS) yn rhagdybio bydd nifer y bobl yn aros yn gyson, nid yw'n tybio llu llawn (tua £3m ychwanegol pe bai'n llawn). Cafodd gwaith i recriwtio mwy i'r System Dyletswydd Ar Alwad ei gapio ar 15 swydd (roedd yn 30 yn 2024/25).<br>• Rhagdybiaeth cynllunio dyfarniad cyflog: Chwyddiant o 3.8% ar gyfer pob grŵp staff. | • Nid yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) wedi dod i gytundeb eto ar ddyfarniad cyflog y diffoddwyr tân ar gyfer 2026/27.<br>• Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn tybio y bydd lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd llif mawr o alwadau yn digwydd byddwn yn teimlo pwysau cyllidebol. Y dybiaeth rydym yn gweithio arni yw y byddai'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio yn y lle cyntaf.<br>• Gallai heriau recriwtio ar gyfer y System Dyletswydd Ar Alwad a lefelau ymddeol uchel gynyddu costau.<br>• Efallai y bydd angen rhagor o gyllid gweinyddol i fynd i'r afael â heriau cyfreithiol ar unioni pensiwn (O'Brien/Matthews 2). |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy’n cael eu defnyddio wrth bennu’r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Costau nad ydynt yn gyflogau | • Cyllidebau wedi'u llunio gan ddefnyddio dull wedi’i seilio ar sero; mae angen achos busnes ar gyfer unrhyw wariant newydd dros £10k.<br>• Mae pwysau chwyddiant, pan fo’n hysbys, yn cael eu ystyried mewn contractau a chostau'r gadwyn gyflenwi.<br>• Mae costau na ellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â materion iechyd a diogelwch penodol i'r diwydiant wedi'u cynnwys o fewn y gyllideb nad yw'n gyflogau. Mae'r rhain yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â hyfforddi diffoddwyr tân gweithredol a rheoli halogyddion.<br>• Gwariant untro (nid cyflog) o £271k wedi'i ddyrannu, i'w ariannu drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflogau ac yn ymdrechu i reoli pwysau o ran costau o fewn y gyllideb arfaethedig, mae hyn yn parhau i fod yn faes risg ac ansicrwydd. Yn benodol, nodwyd bod oedi wrth ddarparu nwyddau neu wasanaethau wedi effeithio ar broffiliau amser gwariant.<br>• Er bod chwyddiant costau yn gyffredinol yn haws ei reoli nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nodir bod rhai meysydd o bryder yn parhau. Mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn costau yswiriant a thrwyddedau ar gyfer meddalwedd gan gynnwys systemau sy’n bwysig i’r busnes.<br>• Rydym wedi gwybod bod cost nwy a thrydan yn achosi pwysau ers 2022/23 o ganlyniad i’r pwysau byd-eang ar gostau. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa wedi sefydlogi ac mae'r gyllideb ar gyfer 2026/27 yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae’r farchnad yn parhau i fod yn anwadal, a chaiff hyn ei reoli'n ofalus trwy gydol y flwyddyn ariannol, gyda'r contract presennol i ddod i ben yn ystod 2026/27. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Ariannu Cyfalaf | • Mae'r gofynion ariannu cyfalaf ar gyfer 2026/27 yn cynnwys y tâl refeniw ar gyfer yr isafswm darpariaeth refeniw ar gyfer yr asedau presennol ac amcangyfrif o'r taliadau llog sy'n deillio o fenthyca. Effeithir ar y costau hyn yn sgil gwariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthyg ar gyfer rhaglen gyfalaf 2026/27 ac effaith y cynnydd mewn cyfraddau llog wrth ailariannu benthyciadau sy'n aeddfedu.<br>• Bydd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn rhagdybio y bydd yr holl fenthyca yn y dyfodol ar gyfradd gyffredinol y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar adeg pennu'r gyllideb, a amcangyfrifir ar hyn o bryd yn 4.6%. Mae'r Awdurdod yn derbyn cyngor ac arweiniad annibynnol ar y mater hwn gan Arlingclose, cwmni cynghori arbenigol.<br>• Mae'r cynllun cyfalaf yn cynnwys costau posibl sy'n gysylltiedig ag achosion busnes a gyflwynir gan bob Pennaeth Adran. Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â Phrosiect y Ganolfan Hyfforddi i alluogi datblygu achos busnes manwl a model ariannu. | • Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn faes risg allweddol ac mae'n gwaethygu oherwydd bod angen ailariannu nifer o fenthyciadau yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27. Modelu ariannol a wnaed i asesu pa mor fforddiadwy yw'r holl gynlluniau yn ystod y broses o bennu'r gyllideb.<br>• Nid yw amseriad unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd yn hysbys ar hyn o bryd gan nad yw'r achos busnes wedi'i ystyried gan yr Awdurdod. Er na ragwelir na fydd yr achos busnes terfynol a'r opsiynau ariannu yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo tan 2027 bydd darpariaeth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio manwl yn cael ei chynnwys yn amcangyfrifon cychwynnol y gyllideb. |
| Incwm | • Mae cyllidebau incwm wedi'u hadolygu a'u pennu yn unol â blynyddoedd blaenorol, yn amodol ar gynnydd mewn chwyddiant.<br>• Mae grant Llywodraeth Cymru yn tybio y bydd gweddill cyllid grant Llywodraeth Cymru yn cael ei roi ar y lefelau presennol. | • Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi yn ychwanegol at yr incwm grant gan Lywodraeth Cymru, ac ni ragwelir codiadau chwyddiant ar ei gyfer.<br>• Nid yw ffrydiau incwm a ragwelir (e.e., gwerthiannau asedau) wedi'u gwarantu. |

**Atodiad 2**

**Ardoll ariannol ddrafft yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod | SYG Amcangyfrif Poblogaeth | 2026/27 Cyllideb £ | 2026/27 Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn £ | 2026/27 Ardoll £ | Cynnydd Ardoll % |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 69,097 | 5,389,578 | -26,861 | 5,362,717 | 3.41% |
| Cyngor Gwynedd | 120,813 | 9,423,435 | -46,965 | 9,376,470 | 5.13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 114,891 | 8,961,518 | -44,663 | 8,916,855 | 4.14% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 98,202 | 7,659,773 | -38,176 | 7,621,598 | 4.82% |
| Cyngor Sir y Fflint | 155,867 | 12,157,653 | -60,593 | 12,097,061 | 3.74% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 138,245 | 10,783,134 | -53,742 | 10,729,392 | 5.30% |
| **Cyfanswm** | **697,115** | **54,375,092** | **-271,000** | **54,104,092** | **4.47%** |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **15 Rhagfyr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Diweddariad i'r Cynllun Dirprwyo Ariannol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r Cynllun Dirprwyo Ariannol wedi'i ddiweddaru i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio i'w ystyried a'i gymeradwyo. Mae'r adolygiad hwn yn sicrhau bod y Cynllun yn parhau i fod yn cyd-fynd yn llawn â'r Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Contractau cyfredol, gan gryfhau llywodraethiant a chydymffurfiaeth ar draws yr holl weithgareddau ariannol a chaffael.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r adroddiad hwn yn esbonio'r rhesymeg dros ddiweddaru'r Cynllun Dirprwyo Ariannol ac yn crynhoi newidiadau allweddol, gan gynnwys terfynau ariannol diwygiedig, rolau cliriach, a gwell effeithlonrwydd gweithredol.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n:

i) **Cymeradwyo'r Cynllun Dirprwyo Ariannol wedi'i ddiweddaru.**

**CEFNDIR**

4 Mae'r Cynllun Dirprwyo Ariannol wedi cael ei adolygu gan y Pwyllgor Cyllid a Chaffael a'i drafod yn anffurfiol a ffurfiol gan Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Sicrhaodd yr adolygiadau hyn fod y newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd â gofynion llywodraethiant ac anghenion gweithredol cyn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

5 Mae'r Cynllun Dirprwyo Ariannol cyfredol, a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Ebrill 2023, yn diffinio terfynau ariannol a chyfrifoldebau awdurdodi ar gyfer uwch swyddogion ac adrannau. Mae'n sail i brosesau rheoli ariannol, caffael a dyfarnu contractau, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud o fewn terfynau cymeradwy ac yn unol â gofynion rheoleiddio.

6 Darperir terfynau'r Cynllun Dirprwyo Ariannol wedi'i ddiweddaru yn Atodiad 1, ac mae'r fersiwn cyfredol wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 er mwyn cyfeirio ato.

## GWYBODAETH

### Rhesymeg dros Ddiweddaru

7 Mae'r Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Contractau wedi'u hadolygu a'u diweddaru. Rhaid i'r Cynllun Dirprwyo Ariannol adlewyrchu'r newidiadau hyn er mwyn parhau i gydymffurfio.

8 Mae'r diweddariad yn egluro terfynau, rolau a chyfrifoldebau dirprwyedig, gan leihau amwysedd a chefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol.

9 Bydd terfynau diwygiedig, cyson yn symleiddio cymeradwyaethau ac yn gwella ymwybyddiaeth.

### Newidiadau Allweddol Arfaethedig (Drafft 2025)

10 **Terfynau Dirprwyedig wedi'u Diweddaru:** Mae trothwyon ariannol ar gyfer awdurdodi wedi'u diwygio i adlewyrchu anghenion gweithredol cyfredol a pharodrwydd i dderbyn risg. Yn fwyaf nodedig, mae'r terfyn ar gyfer Rheolwyr Ardal/Penaethiaid Adrannau wedi cynyddu i £120,000 yn unol â chaffael, gyda'r gallu i ddirprwyo cymeradwyaeth o hyd at £30,000 i Ddirprwy Benaethiaid Adrannau neu gyfwerth.

11 **Dyfarniadau Prydles a Grantiau:** Mae darpariaeth newydd yn gosod terfynau dirprwyedig ar gyfer dyfarniadau prydles a grantiau, gan sicrhau rheolaeth a goruchwyliaeth gyfrannol.

12 **Cynllun Syml:** Mae'r Cynllun Dirprwyo Ariannol wedi'i ddiweddaru wedi'i symleiddio, gyda llai o gategorïau/colofnau, oherwydd rheolaethau adeiledig gwell o fewn y system a gwell dealltwriaeth a chydymffurfiaeth â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau.

13 **Newidiadau i'r Sefydliad:** Mae angen achos busnes wedi'i gymeradwyo drwy'r broses gosod cyllideb ar gyfer unrhyw newidiadau i'r sefydliad neu swyddi newydd. Bydd unrhyw ofynion AD, megis y Broses Cais am Swydd, yn dal i fod yn angenrheidiol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Cynllun Dirprwyo Ariannol wedi'i ddiweddaru yn cefnogi amcanion llesiant sefydliadol trwy hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd a gwneud penderfyniadau effeithlon. |
| Cyllideb | Mae terfynau ariannol diwygiedig yn adlewyrchu anghenion gweithredol cyfredol a pharodrwydd i dderbyn risg, gan alluogi caffael a rheoli contractau mwy ymatebol. Er nad oes angen cynnydd ar unwaith yn y gyllideb, bydd y newidiadau yn gwella dyrannu adnoddau ac yn lleihau gorbenion gweinyddol. |
| Cyfreithiol | Mae cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ariannol a Rheolau Gweithdrefn Contractau wedi'u diweddaru yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol a llywodraethiant. Mae hyn yn lleihau'r amlygiad i heriau cyfreithiol ac yn cryfhau sicrwydd archwilio. |
| Staffio | Bydd awdurdod dirprwyedig a phrosesau cymeradwyo cliriach yn grymuso rheolwyr ac yn lleihau rhwystrau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r Cynllun yn parhau i fod yn gyson â safonau’r Gymraeg a chydraddoldeb, gan sicrhau arferion cynhwysol mewn penderfyniadau ariannol a chaffael. Ni ragwelir unrhyw effaith andwyol. |
| Risgiau | Gallai methu â mabwysiadu'r Cynllun wedi'i ddiweddaru arwain at beidio â chydymffurfio â rheoliadau diwygiedig, risg llywodraethiant cynyddol, ac aneffeithlonrwydd gweithredol. I'r gwrthwyneb, mae gweithredu yn lleihau'r risgiau hyn ac yn gwella rheolaeth sefydliadol. |

# Atodiad 1: Cynllun Dirprwyo Ariannol wedi'i Ddiweddaru

| | Budget Changes | Revenue Expenditure and Contracts | Capital Expenditure | | | Specialist | | Staffing | | | Grant Awards |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Limits Up to: | FRA Budget transfers between budget headings | Individual Orders / Requisitions/ annual Orders. Supplier Contracts. Framework Contracts. General Contracts/SLAs (value over lifetime of contract). Includes direct awards (waivers) | All Capital Expenditure | Disposals (original cost) | Property or Equipment Leases {Grant/ Termination} Annual Value | Settlement of Legal Claims and Losses | Stock/ Equipment Write Off | Changes to Establishment / New Posts | Changes to Existing Posts | Secondments | Grant Awards |
| Fire and Rescue Authority | Reported in outturn report | By exception (AC to determine) | Approval of capital budget and in year reporting | Land & buildings: all | Land & buildings: all | | | | | | Reported in outturn report |
| Chair of FRA | | Reported | | | | | | | | | |
| Audit Committee | | over £1.0m reported to Audit Committee | | | | | | | | | |
| Service Leadership Team | | | Review of capital plan | Land & buildings: all | Land & buildings: all | | | Approval of Business Case and subsequent HR Process (JRP) | | | |
| Treasurer | notification over £250,000 | | Review of capital plan | Land & buildings: all | | | over £5,000 | | | | |
| Chief Fire Officer | over £250,000 | over £500,000 | over £500,000 | £1,000,000 | Land & buildings: all | over £500,000 | | | | | Over £50,000 |
| ACFO-Finance & Resources | £250,000 | £500,000 | above £120,000 to £500,000 | | | £500,000 | | | | | £50,000 |
| Principal Officers | | £250,000 | Sign off of capital bids | £250,000 | Above £12,000 pa (except land and buildings) | | £5,000 inform HoF&P | | Sign off | Sign off | £25,000 |
| Area Manager/Head of Department (SLT members) | | £120,000 (across lifetime of contract) | Up to £120,000 once business case has been approved | £120,000 | Up to £12,000pa | | £1,000 inform HoF&P | | *JRP | Yes | £12,000 |
| Head of Finance & Procurement | £120,000 | | All orders | Informed - all | Informed -all | ACFO informed £120,000 | £1,000 | | *JRP | Informed - all | Informed - all |

# Atodiad 2: Cynllun Dirprwyo Ariannol Cyfredol

| | Budget Changes | General Expenditure | Contracts | | Capital Expenditure | | | | | Specialist | | | Procurement Waivers | Staffing | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Limits Up to: | FRA Budget transfers between budget headings | Individual Orders / Requisitions/ annual Orders or total contract value {unless otherwise noted} | Supplier Contracts. Framework Contracts. General Contracts/SLAs (value over lifetime of contract) | Grant Awards | Buildings & Engineering Works | Vehicles & Equipment | ICT: Telecoms, Systems, Software, Consultancy. | Disposals (original cost) | Property or Equipment Leases {Grant/ Termination} Annual Value | Settlement of Legal Claims and Losses | Stock/ Equipment Write Off | External Consultancy support. {Total Value for Duration Service | All Values | Changes to Establishment/ New Posts | Changes to Existing Posts | Secondments |
| Fire and Rescue Authority | Reported in outturn report | Reported in outturn report | By exception (AC to determine) | Reported | Approval of capital budget and in year reporting | | | Land & buildings: all | Land & buildings: all | | | | | | | |
| Chair of FRA | | | Reported | | | | | | | | | | | | | |
| Audit Committee | | | over £1.0m reported to Audit Committee | | | | | | | | | | | | | |
| Service Leadership Team | | | | | Review of capital plan | | | Land & buildings: all | Land & buildings: all | | | | | Sign off | | |
| Treasurer | notification over £250,000 | | | | Review of capital plan | | | Land & buildings: all | | | | | | | | |
| Chief Fire Officer | over £250,000 | over £500,000 | All | All | over £500,000 | | | £1,000,000 | Land & buildings: all | over £500,000 | | | over £500,000 | Sign off | | |
| Principal Officers | | £250,000 | £250,000 | For areas of responsibility | Sign off of capital bids | | | £250,000 | Above £3,000 pa (except land and buildings) | | over £1,000 inform HoF&P | Informed by SLT members > £10k Over £10,000 | | Sign off | Sign off | Sign off |
| ACFO-Finance & Resources | £250,000 | £500,000 | | All | above £80,000 to £500,000 | | | | | £500,000 | | | up to £500,000 | | | |
| Area Manager/Head of Department (SLT members) | | £80,000 | up to £10,00 pa annum or one off costs up to £40,000 | Informed | Up to £80,000 once business case has been approved | | | £40,000 | Up to £3,000 pa | | up to £1,000 inform HoF&P | £10,000 | Sign off waiver request | *JRP | *JRP | Yes |
| Head of Finance & Procurement | £100,000 | | | Informed - all | All orders | | | Informed - all | Informed -all | ACFO informed £80,000 | up to £1,000 | £10,000 | 40000 informed - all | Informed - all | *JRP | Informed - all |

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Cynllun Dirprwyo Ariannol (SoFD)

Ar ôl ei hargraffu, mae hon yn ddogfen na ellir ei rheoli. Mae'r holl ddefnyddwyr yn gyfrifol am wirio i gadarnhau mai dyma'r fersiwn gyfredol cyn ei defnyddio.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fersiwn: | 3.0 | Adolygiad nesaf: | 19 Hydref 2028 |
| Statws: | I'w Gymeradwyo | Dyddiad cyhoeddi: | 20 Hydref 2025 |

# 1. Cyflwyniad

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn dirprwyo cyfrifoldeb am weithrediad dyddiol y Gwasanaeth Tân ac Achub (y Gwasanaeth) i'r Prif Swyddog Tân.

Er mwyn cefnogi'r Prif Swyddog Tân i gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid bod trefniadau rheoli cadarn ar waith i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus a chynnal safonau uchel o ran uniondeb ariannol. Mae'r Cynllun Dirprwyo Ariannol (SoFD) yn gweithredu yn unol â'r gweithdrefnau ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Contractau a osodwyd gan y Trysorydd.

Mae'r Cynllun Dirprwyo Ariannol yn diffinio'r terfynau ariannol a'r gofynion adrodd y mae'r Prif Swyddog Tân, y Prif Swyddogion, a'r Uwch Reolwyr yn arfer awdurdod dirprwyedig yn unol â hwy. Oni nodir yn benodol, nid oes gan unrhyw swyddog arall awdurdod i gymeradwyo na llofnodi trafodion.

# 2. Mathau o Drafodion

## 2.1 Newidiadau i'r Gyllideb

Dim ond y Pennaeth Cyllid a Chaffael all weithredu newidiadau i'r gyllideb. Mae angen llofnod y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) ar gyfer cymeradwyaeth dros £120,000 (rhwng penawdau gwasanaeth), ac mae angen cymeradwyaeth y Prif Swyddog ar gyfer newidiadau dros £250,000.

## 2.2 Gwariant Refeniw a Chontractau

Mae cymeradwyo gwariant refeniw (e.e., gorchmynion prynu) yn cael ei reoli o fewn y system ariannol trwy gronfeydd awdurdodi. Mae'r cronfeydd hyn yn caniatáu awdurdod dirprwyedig pellach i staff, gyda therfyn uchaf o £30,000 fel y cytunwyd gyda deiliaid y gyllideb.

## 2.3 Hepgoriadau Caffael

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol lle mae cydymffurfio yn wirioneddol anymarferol y gellir gofyn am eithriadau o Reolau Gweithdrefn Contractau (e.e., nwyddau neu wasanaethau arbenigol gydag un cyflenwr megis BT ar gyfer rhai llinellau ffôn). Ni ddylid byth ddefnyddio hepgoriadau i osgoi'r rheolau. Mae angen cyfiawnhad llawn a chlir ac ni dderbynnir cyfyngiadau amser yn unig.

Rhaid i’r Rheolwr Caffael a Chytundebau gytuno â phob cais am hepgoriad yn gyntaf, gyda'r opsiwn o'i uwchgyfeirio at y Pennaeth Cyllid a Chaffael. Ar ôl cytuno, rhaid i'r cais ddilyn y broses gymeradwyo safonol ar gyfer refeniw a gwariant. Ni ddylai unrhyw weithgaredd caffael ddechrau cyn derbyn cymeradwyaeth ffurfiol.

## 2.4 Gwariant Cyfalaf

Fel gyda gwariant cyffredinol, rheolir cymeradwyaeth gwariant cyfalaf o fewn y system ariannol drwy gronfeydd awdurdodi. Mae Pennaeth Cyllid a Chaffael yn cymeradwyo'r holl wariant cyfalaf cyn iddo gael ei gymeradwyo gan yr aelod staff perthnasol.

Mae angen cymeradwyaeth yr Uwch Dîm Arweinyddol a'r Trysorydd i waredu tir ac adeiladau, a chymeradwyaeth y Prif Swyddog Tân ar gyfer ymrwymo i neu derfynu prydlesi ar gyfer tir a/neu adeiladau.

## 2.5 Hawliadau Cyfreithiol

Bydd taliadau yn cael eu hawdurdodi, yn y lle cyntaf, gan y Pennaeth Cyllid a Chaffael, gan ddirprwyo i'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) a'r Prif Swyddog, yn ddibynnol ar werth yr hawliad.

Dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth Cyllid a Chaffael am yr holl hawliadau cyfreithiol posibl a'r rhai sydd heb eu cwblhau, a hynny er mwyn sicrhau bod cyfrif cywir amdanynt o fewn sefyllfa ariannol y Gwasanaeth.

## 2.6 Gwaredu Stoc/Offer

Dylid adrodd wrth y Pennaeth Cyllid a Chaffael am unrhyw stoc sydd i fod i gael ei waredu. Dylai'r gwaredu nodi a yw'r eitemau wedi'u hariannu o refeniw, cyfalaf, neu gyllid grant. Dylid diwygio cofrestrau asedau adrannol cysylltiedig i adlewyrchu'r gwaredu, a darparu copi gyda'r hysbysiad.

Os yw gwerth stoc yn fwy na £1,000 (pris prynu) mewn unrhyw flwyddyn ariannol, mae angen cymeradwyaeth Prif Swyddog, ac os yw'n werth mwy na £5,000 mae angen cymeradwyaeth Trysorydd. Bydd nodi'r angen i waredu stoc o fewn y Fflyd neu'r prif storfeydd yn effeithio ar gyllideb refeniw adran.

## 2.7 Dyfarniadau Grant

Rhaid i'r Pennaeth Cyllid a Chaffael gael gwybod am bob dyfarniad grant er mwyn sicrhau adroddiadau cywir ac i roi trefniadau ariannol priodol ar waith. Mae gan ddyfarniadau grant derfynau cymeradwyo is oherwydd y telerau ac amodau penodol sydd ynghlwm wrth bob grant.

## 2.8 Staffio

Rhaid i unrhyw newidiadau i'r gyllideb sefydledig sy'n ymwneud â staffio gael eu cefnogi gan achos busnes a gymeradwywyd drwy'r broses o bennu cyllideb. Yn dilyn hyn, mae angen y broses AD briodol, sef y Broses Gofyniad Swyddi (JRP) ar hyn o bryd.

Mae'r Broses Gofyniad Swyddi ar gyfer swyddi presennol yn gofyn am gymeradwyaeth y rheolwr llinell a'r Prif Swyddog ar gyfer recriwtio. Cedwir manylion rheolwyr llinell o fewn Strwythur y Sefydliad ar y system AD, a gedwir gan yr Adran AD. Mae hyn yn golygu bod awdurdod dirprwyedig pellach i aelodau staff eraill, nad yw'n cael ei ddogfennu yn y Cynllun Dirprwyo Ariannol hwn.

Rhaid i'r holl newidiadau i oriau, graddau, neu geisiadau am werthuso swyddi gael eu llofnodi gan ddeiliad y gyllideb a'r Prif Swyddog. Mae angen cymeradwyaeth deiliad y gyllideb a'r Prif Swyddog ar gyfer secondiadau hefyd.

At ddibenion archwilio, rhaid darparu cadarnhad ysgrifenedig o'r newid i Adnoddau Dynol a Chyllid, er mwyn sicrhau bod y systemau TG perthnasol yn adlewyrchu'r sefydliad presennol.

## 2.9 Awdurdod Dirprwyedig

Cyfrifoldeb Penaethiaid Adran yw sicrhau bod y cronfeydd awdurdodi ar gyfer eu hadrannau yn gywir ac yn cael eu diweddaru. Gellir dirprwyo uchafswm o £30,000 i Ddirprwy Benaethiaid Adran neu gyfwerth.

Rhaid cwblhau pob newid i gronfeydd awdurdodi trwy Sunrise.

# Cynllun Dirprwyo Ariannol GTAGC

Cynllun Dirprwyo Ariannol sy'n nodi'r terfynau ariannol dirprwyedig ar gyfer Uwch Swyddogion
Mae terfynau ariannol yn amodol ar gyllid sydd ar gael o fewn cyllidebau perthnasol
Rhaid i bob pryniant sicrhau cydymffurfiaeth â Rheolau Gweithdrefn Contractau o ran y dyfynbris neu'r broses dendro ofynnol

| | Budget Changes | Revenue Expenditure and Contracts | Capital Expenditure | | | Specialist | | Staffing | | | Grant Awards |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Limits Up to: | FRA Budget transfers between budget headings | Individual Orders / Requisitions/ annual Orders. Supplier Contracts. Framework Contracts. General Contracts/SLAs (value over lifetime of contract). Includes direct awards (waivers) | All Capital Expenditure | Disposals (original cost) | Property or Equipment Leases {Grant/ Termination} Annual Value | Settlement of Legal Claims and Losses | Stock/ Equipment Write Off | Changes to Establishment / New Posts | Changes to Existing Posts | Secondments | Grant Awards |
| Fire and Rescue Authority | Reported in outturn report | By exception (AC to determine) | Approval of capital budget and in year reporting | Land & buildings: all | Land & buildings: all | | | | | | Reported in outturn report |
| Chair of FRA | | Reported | | | | | | | | | |
| Audit Committee | | over £1.0m reported to Audit Committee | | | | | | | | | |
| Service Leadership Team | | | Review of capital plan | Land & buildings: all | Land & buildings: all | | | Approval of Business Case and subsequent HR Process (JRP) | | | |
| Treasurer | notification over £250,000 | | Review of capital plan | Land & buildings: all | | | over £5,000 | | | | |
| Chief Fire Officer | over £250,000 | over £500,000 | over £500,000 | £1,000,000 | Land & buildings: all | over £500,000 | | | | | Over £50,000 |
| ACFO-Finance & Resources | £250,000 | £500,000 | above £120,000 to £500,000 | | | £500,000 | | | | | £50,000 |
| Principal Officers | | £250,000 | Sign off of capital bids | £250,000 | Above £12,000 pa (except land and buildings) | | £5,000 inform HoF&P | | Sign off | Sign off | £25,000 |
| Area Manager/Head of Department (SLT members) | | £120,000 (across lifetime of contract) | Up to £120,000 once business case has been approved | £120,000 | Up to £12,000pa | | £1,000 inform HoF&P | | *JRP | Yes | £12,000 |
| Head of Finance & Procurement | £120,000 | | All orders | Informed - all | Informed -all | ACFO informed £120,000 | £1,000 | | *JRP | Informed - all | Informed - all |

Gwariant cyffredinol: Terfynau cymeradwyo ar gyfer staff eraill sydd gan y Pennaeth Cyllid yn unol â chronfeydd awdurdodi
Dyfarniadau grant: Mae cymeradwyo hefyd yn dibynnu ar amodau'r grant

*This document is available in English* Eitem Agenda 12

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **15 Rhagfyr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur** |
| Pwnc | **Trefniadau Archwilio Mewnol o Ebrill 2026** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu i'r Aelodau yr angen i ystyried darparu gwasanaethau archwilio mewnol o Ebrill 2026 ac i gynnig ymestyn y trefniant presennol am gyfnod o 24 mis.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

3 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, ac mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ganfyddiadau'r archwiliad.

4 Gweithredwyd trefniadau archwilio mewnol presennol yr Awdurdod yn dilyn proses gystadleuol ac ar ôl hynny penodwyd Mersey Internal Audit Agency (MIAA) ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2026.

5 Cafodd y broses wreiddiol ei goruchwylio gan banel dan arweiniad aelodau oedd yn cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Thrysorydd yr Awdurdod. Cyfarfu'r panel ar 1 Mehefin 2023 ac argymell yn unfrydol y dylid penodi Mersey Internal Audit Agency.

6 Roedd yr ymarfer caffael a'r contract hefyd yn caniatáu i'r contract gael ei ymestyn am gyfnod o ddwy flynedd arall, mewn cyfnodau o 12 mis. Mae'r papur hwn yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer ymestyn y contract gwreiddiol am gyfnod o ddwy flynedd, mewn cyfnodau o 12 mis.

7 Gwerth blynyddol y contract yw £23,450 +VAT, yn seiliedig ar flwyddyn ariannol 2025/26. Nid oes unrhyw addasiadau i lefel y gwasanaeth yn cael eu cynnig fel rhan o'r papur hwn.

## ARGYMHELLION

8 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i. cymeradwyo'r argymhelliad i ymestyn penodiad Mersey Internal Audit Agency fel darparwyr archwilio mewnol yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod ariannol 1 Ebrill 2026 - 31 Mawrth 2028, mewn cyfnodau o 12 mis.**

## CEFNDIR

9 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

10 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, ac mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ganfyddiadau'r archwiliad. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

11 Cafodd trefniadau presennol yr Awdurdod eu rhoi ar waith yn dilyn proses dendro gystadleuol a byddant yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026 ac mae angen gwneud darpariaeth briodol o 1 Ebrill 2026. Mae'r ymarfer caffael a'r contract yn caniatáu ymestyn y trefniadau presennol am gyfnod o 24 mis, ar sail 12 mis.

## GWYBODAETH

12 Penodwyd Mersey Internal Audit Agency (MIAA) ym mis Mehefin 2025 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2026. Ers eu penodi, mae MIAA wedi darparu lefel uchel o wasanaeth yn erbyn y cynllun y cytunwyd arno'n flynyddol. Mae'r cynllun wedi rhoi sicrwydd ynghylch y systemau ariannol allweddol a risgiau eraill gan gynnwys seiberddiogelwch, cyflawni'r cynllun hyfforddi gweithredol ac olrhain asedau.

13 Mae'r estyniad arfaethedig wedi cael ei drafod a'i gymeradwyo gan Drysorydd yr Awdurdod sydd wedi cadarnhau nad oes unrhyw faterion cwmpas na pherfformiad y mae angen eu hystyried.

RHAN II

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcan llesiant hirdymor yr Awdurdod sef "hwyluso gwasanaethau tân ac achub o ansawdd uchel, sy'n ymatebol ac wedi ei integreiddio'n well fel y gall gweithgareddau atal ac ymateb brys barhau i fod ar gael pan fo'u hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg." |
| Cyllideb | Gwnaed darpariaeth ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol o fewn y trefniadau gosod cyllideb. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| Staffio | Amh. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Amh. |
| Risgiau | Mae'r Datganiad Sicrwydd yn cael ei gyflwyno yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath, ni fyddai'r Aelodau'n ymwybodol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a'u gallu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion.<br><br>Ni fyddai unrhyw faterion neu wendidau arwyddocaol a nodwyd gan Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |

RHAN II